Cyngor Sir Caerfyrddin

# Strategaeth Coed a Choetir 2024–2029

Cyngor Sir Caerfyrddin

Rhagfyr 2024

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................................................................................... 4**

1.1. Pam strategaeth coed a choetir? ........................................................................... 6

1.2. Mae coed a choetir yn darparu cyfoeth o fuddion .................................................. 7

**2. Polisi cefndirol a'r fframwaith strategol ................................................................... 10**

**3. Egwyddorion cyffredinol ........................................................................................... 11**

3.1. Amcanion strategol ............................................................................................... 11

3.2. Targedau cyflawni ................................................................................................. 16

**4. Gweithredu a monitro ............................................................................................... 19**

4.2. Adnoddau staff ...................................................................................................... 19

**5. Tablau camau gweithredu ......................................................................................... 21**

5.2. Tabl 1 – Rheoli coed a choetiroedd presennol ........................................................ 22

5.3. Tabl 2 – Plannu coed a choetiroedd newydd .......................................................... 35

**6. Cynllun Gweithredu sy'n cael ei ddatblygu .............................................................. 44**

6.1. Camau gweithredu ar gyfer rheoli coed a choetir presennol .................................. 44

6.2. Camau gweithredu ar gyfer plannu coed a choetiroedd newydd ............................ 47

**7. Atodiadau ................................................................................................................. 50**

Atodiad A: Strategaeth clefyd coed ynn CSC (Hydref 2022) ...................................... 50

Atodiad B: Strategaeth Rheoli Coed (Medi 2019) ....................................................... 62

Atodiad C: Ardaloedd rheoli ansawdd aer .................................................................. 63

## Talfyriadau

| | |
|---|---|
| **CSC** | Cyngor Sir Caerfyrddin (a elwir hefyd yn ‘y cyngor’) |
| **CNC** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **CDLl diwygiedig** | Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |

# 1. Cyflwyniad

## Rhagair gan y Cynghorydd Aled Vaughan Owen, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn chwarae rhan bwysig wrth i ni fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau newid hinsawdd a natur. Wrth i ni gychwyn ar y daith hon, rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y mae coed a choetiroedd yn ei chwarae yn ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n llesiant. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad i warchod a gwella'r adnoddau gwerthfawr hyn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Drwy feithrin arferion rheolaeth gynaliadwy, ymgysylltu â'n cymunedau a chroesawu arloesedd, ein nod yw creu dyfodol mwy gwyrdd a gwydn i'n sir. Gyda'n gilydd, gallwn feithrin ecosystemau ffyniannus, dathlu ein treftadaeth naturiol gyfoethog, ac adeiladu gwaddol o gytgord rhwng pobl a natur.

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd** | Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen<br>Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd<br>21/08/23 |

## Rhagair y cyfarwyddwr

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi datgan argyfyngau newid hinsawdd a natur. Mae angen ymateb cymesur i argyfyngau. Mae'r rôl y mae coed a phlannu coetir yn ei chwarae wrth liniaru newid hinsawdd ac adfer natur wedi'i dogfennu'n dda, ac fel y cydnabyddir yn y strategaeth hon, mae plannu coed a choetir yn darparu

nifer o fanteision eraill. Fel tirfeddiannwr, mae gan y cyngor gyfle i gyfrannu'n gadarnhaol at y strategaeth ehangach a helpu i fynd i'r afael â'r ddau fater hyn drwy'r ffordd y mae'n rheoli ei dir, ac yn benodol ei goed a'i goetiroedd, ac mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd y cyngor yn gwneud hyn.

Mae'r strategaeth yn cynnig dull cam wrth gam, gyda tharged hirdymor o anelu at gynyddu gorchudd coed a choetir ar dir y cyngor i 17% yn unol â chanllawiau Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Mae'r strategaeth yn cynghori y dylai'r targed hwn fod yn fwy cymedrol am y pum mlynedd cyntaf, wrth inni fabwysiadu arferion gwaith newydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd cyflawniad y strategaeth yn cael ei adolygu bob pum mlynedd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn unol â pholisi a'r wyddoniaeth orau sydd ar gael.

Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn ddiamau yn golygu y bydd yn rhaid i ni wneud newidiadau yn y ffordd rydym yn rheoli tir y cyngor. Bydd plannu coed a sefydlu coetiroedd newydd yn heriol, a bydd rhaid i ni gofleidio'r heriau hyn. Yn yr hirdymor, rhaid meddwl am sut rydym yn ariannu ac yn cynnal ein coed a'n coetiroedd.

Fel y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith, rwy'n cymeradwyo'r camau gweithredu yn y strategaeth ac yn cynnig fy nghefnogaeth i fynd i'r afael â'r heriau hyn a chyflawni'r gwahanol gamau gweithredu yn y strategaeth. Wrth gwrs, bydd gan bob maes gwasanaeth perthnasol ar draws yr awdurdod ran sylweddol i'w chwarae wrth reoli eu daliadau tir priodol yn unol â hynny. Bydd cyflawni'r strategaeth yn arwain at ddefnyddio ein tir (y lleoedd lle rydym yn gweithio, yn byw ac yn cyrchu gwasanaethau) i gynnal mwy o goed, gan fod yn fwy gwyrdd ac yn fwy bioamrywiol.

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd** | Ainsley Williams<br><br>Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith, 21/08/2023 |

## 1.1. Pam strategaeth coed a choetir?

1.1.1. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut a pham y bydd CSC yn rheoli'r coed a'r coetiroedd y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae hefyd yn nodi sut a pham y bydd CSC yn sicrhau ei fod yn plannu mwy o goed a mwy o goetir mewn mannau priodol ac am y rhesymau cywir. Wrth gyflawni'r strategaeth, bydd CSC yn chwarae ei ran wrth liniaru'r argyfyngau natur a newid hinsawdd sydd wedi eu datgan gan y cyngor a Llywodraeth Cymru. Bydd cyflawni'r strategaeth arfaethedig yn llwyddiannus hefyd yn cyflawni'r nifer o fanteision eraill y mae coed a choetiroedd yn eu cynnig.

1.1.2. Bydd cyflawni'r strategaeth yn gofyn am ymrwymiad a chyfranogiad llawer o swyddogion CSC ar draws gwahanol adrannau a meysydd gwasanaeth. Mae gan feysydd gwasanaeth sy'n gyfrifol am reoli tir – gan gynnwys ysgolion, meysydd chwaraeon, tai, canolfannau dydd, cartrefi gofal, a meysydd gwasanaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau a phrosiectau tir a sicrhau grantiau – rôl i'w chwarae, yn ogystal â meysydd gwasanaeth fel rheoli datblygu, sydd â rôl reoleiddio. Gall cyflawni'r strategaeth herio arferion rheoli tir sefydledig, ond mae newid yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, ac os ydym am fwynhau'r nifer o fanteision y gall coed a choetiroedd eu cynnig. Bydd y strategaeth hon, a'i chyflawniad, yn cael eu hintegreiddio i waith datblygu seilwaith gwyrdd a glas CSC.

*1.1.3.* Mae'r strategaeth wedi'i pharatoi mewn ymateb i Gam Gweithredu 23 yn nogfen y cyngor 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf' (2017–2022): *Hyrwyddo strategaeth coed i wella'r amgylchedd a chymryd camau i leihau effaith ar lygredd aer a sŵn yn ein hardaloedd mwy poblog.*

1.1.4. Mae'r cylch gwaith yn ehangach na Cham Gweithredu 23, ac mae'n adlewyrchu cyfrifoldebau rheoli ehangach CSC dros goed a choetiroedd ar draws ei ystad, a ble a pham yr hoffai blannu mwy o goed a choetir, a'r camau y mae angen eu cymryd i

wneud hyn. Mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Er gwybodaeth, mae mapiau o dair ardal rheoli ansawdd aer Sir Gaerfyrddin wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

1.1.5. Mae'r strategaeth yn gyson â Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022 CSC:

*Cynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, a chydnabod y gydberthynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant pobl. Ystyried defnyddio tir Cyngor Sir Caerfyrddin i greu cynefinoedd blodau gwyllt a phryfed peillio, gan gynnwys ochrau ac ymylon ffyrdd. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid hinsawdd wedi'u peri gan fodau dynol a cholli bioamrywiaeth ar eu pen eu hunain. Rydyn ni naill ai'n datrys y ddau neu ddim un ohonynt.*

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/datganiad-gweledigaeth-y-cabinet-2022-2027/yr-amgylchedd-a-thrafnidiaeth/

Mae hefyd yn adlewyrchu paragraff 9 o Amcan Llesiant 3 Strategaeth Gorfforaethol 2022–2027 CSC:

*"Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol yn dda ar gyfer llesiant, gydag ecosystemau iach a gweithredol, sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol."*

1.1.6. Mae'r strategaeth hon wedi'i chyfyngu i dir sy'n eiddo i CSC neu'n cael ei reoli ganddo, a thir cyfagos lle mae problemau coed yn effeithio ar gyfrifoldebau CSC, e.e. coed ar dir preifat gerllaw'r briffordd.

1.1.7. I gydnabod ei gyfrifoldebau ehangach ar draws y sir, bydd CSC yn parhau i gynnal ei wasanaeth cynghori ar reoli coetir am ddim i berchnogion tir. Bydd CSC yn parhau i ymateb i ymgynghoriadau gan CNC ar ei gynlluniau adnoddau coedwig hirdymor ar gyfer Ystad Goetir LlC ac i ymgyngoriadau ar gynlluniau plannu newydd mwy mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig, neu mewn ardaloedd o ansawdd tirwedd tebyg.

1.1.8. Cynghorir adolygu'r strategaeth yn 2029.

## 1.2. Mae coed a choetir yn darparu cyfoeth o fuddion

1.2.1. Mae coed yn rhoi llawer o fuddion i ni ac maen nhw'n creu ymdeimlad o le. Cydnabyddir bod coed, a lleoedd gyda choed, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd

meddwl a chorfforol: maent yn lleoedd lle mae pobl yn dewis ymlacio ac ymarfer corff. Maent yn elfennau allweddol o fentrau seilwaith gwyrdd.



**Ffigur 1. Mae coed yn chwarae rhan enfawr wrth greu a llunio'r lleoedd a'r tirweddau rydyn ni'n eu mwynhau. Maent yn darparu cynefinoedd i fywyd gwyllt a llu o wasanaethau ecosystemau, bob dydd, am ddim.**

1.2.2. Cawn ein hatgoffa’n rheolaidd o’r manteision amgylcheddol sy’n gysylltiedig â choed a choetiroedd: maent yn amsugno ac yn storio nwyon tŷ gwydr ac yn atafaelu carbon, gan helpu i liniaru newid hinsawdd, gallant helpu i wella ansawdd aer a thirweddau sain, ac maent yn creu effaith oeri mewn ardaloedd adeiledig. Gall coed helpu i leihau llifogydd drwy gynyddu amsugno a threiddiad dŵr wyneb, ac maent yn darparu cynefin i fywyd gwyllt ac yn cyfrannu at gysylltedd ecolegol a chydnerthedd ecosystemau, wrth hefyd wella'r dirwedd. Yn ogystal â'r uchod, mae'r coed a'r coetiroedd yn ein tirweddau amaethyddol yn darparu pren a choed tân a lloches i dda byw, maent yn atal dŵr ffo amaethyddol (e.e. ffosffadau), a gall eu sefydlu wella gweithrediadau'r fferm o ran iechyd a diogelwch trwy leihau nifer y gweithrediadau amaethyddol ar lethrau serth (er enghraifft).

1.2.3. Mae gan goed a choetiroedd werth economaidd, maent fel arfer yn cynyddu gwerthoedd eiddo, ac maent yn gwneud ardaloedd yn fwy deniadol i fuddsoddwyr. Maen nhw'n creu ardaloedd deniadol yng nghanol trefi lle mae pobl yn siopa ac yn mynd i dai bwyta, a lle byddant yn dewis treulio amser. Mae amgylchedd gwyrdd yn

creu amgylchedd gwaith gwell; mae gweithwyr sydd â golygfeydd o goed a mynediad at ardaloedd â choed yn teimlo'n hapusach ac yn perfformio'n well. Gellir cyfrifo gwerth amwynder gweledol coed mewn termau ariannol gan ddefnyddio system Helliwell neu system Tempo, ac rydym yn gynyddol ymwybodol o'r manteision i'n hiechyd corfforol a meddyliol o dreulio amser mewn amgylcheddau coediog neu amgylcheddau â choed.



**Ffigur 2. Ym Mharc Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, rydym wedi defnyddio grant Llywodraeth Cymru dros dri gaeaf i blannu dros 400 o goed, gan sicrhau y bydd tirwedd goed odidog yn parhau yn y rhan hon o Gaerfyrddin yn y blynyddoedd i ddod. Os ydym yn plannu coed newydd, mae'n hanfodol ein bod yn dyrannu amser ac adnoddau ar gyfer eu rheoli yn yr hirdymor.**

1.2.4. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r ffaith bod coed a choetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda yn darparu manteision lluosog.

# 2. Polisi cefndirol a'r fframwaith strategol

2.1.1. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gyflawni ac mae wedi'i nodi mewn tablau sy'n mynd i'r afael â gwahanol feysydd gwasanaeth CSC. Bydd cyflawni'r camau gweithredu y mae'n eu cynnwys yn mynd i'r afael â gwahanol gyfrifoldebau ac agendâu:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ac Amcan Llesiant 3 CSC – Gwneud ein cymunedau a'n hamgylchedd yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2023–2025
- Datganiad Gweledigaeth y Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin 2022
- Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru – gan gyfeirio at Bennod 6 ac at seilwaith gwyrdd a glas
- Datganiad argyfwng hinsawdd a natur Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin, a'r rôl sydd gan goed a choetir wrth liniaru newid hinsawdd a chreu cyfleoedd ar gyfer adfer natur
- Mae'n gyson â Seilwaith Priffyrdd a Reolir yn Dda: Cod Ymarfer 2016
- Comisiwn Dylunio Cymru Siarter Creu Lleoedd Cymru, y mae CSC yn llofnodwr iddi

# 3. Egwyddorion cyffredinol

## 3.1. Amcanion strategol

3.1.1. Mae'r deg egwyddor arweiniol a ddatblygwyd gan Ardd Fotaneg Frenhinol Kew a Botanic Gardens Conservation International yn darparu egwyddorion arweiniol ar gyfer rheoli a phlannu coed a choetiroedd newydd. Mae CSC yn mabwysiadu'r egwyddorion hyn wrth gyflawni ei strategaeth goed:

*Diogelu coedwigoedd presennol ac ardaloedd o ddiddordeb bioamrywiaeth presennol*

3.1.2. Dylem ni i gyd gymryd camau i frwydro yn erbyn datgoedwigo a cholli coed. Ar yr un pryd, wrth ddatblygu prosiectau plannu coed a choetir newydd, rhaid inni ddiogelu ardaloedd o ddiddordeb bioamrywiaeth presennol fel glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau a chymunedau planhigion rhostir.

*Gweithio gyda'n gilydd â phobl leol*

3.1.3. Mae plannu coed a choetiroedd yn gweithio orau pan fydd yn darparu manteision ychwanegol i gymunedau lleol.



**Yng ngaeaf 2022/23, plannwyd 900 o goed a llwyni brodorol cymysg gyda'r gymuned leol ym Mharc Dŵr y Sandy, Llanelli. Mae'r rhain yn cael eu cynnal a'u cadw gan y grŵp cymunedol gyda chymorth y Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored.**




**Ffigur 3. Rydym yn gweithio ar draws adrannau i nodi ardaloedd ar dir sy'n eiddo i ni sy'n addas ar gyfer plannu coed. Yn Neuadd y Gwendraeth yn Nre-fach, rydym yn datblygu cynlluniau gyda'r Adran Addysg i blannu mwy o goed mewn lleoliadau lle na fydd hyn yn gwrthdaro â defnyddio'r safle at ddibenion eraill. Gallai'r prosiectau hyn fod yn gymwys ar gyfer grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru.**

*Dylunio a rheoli coetiroedd newydd a phresennol yn gynaliadwy*

3.1.4. Bydd hyn yn helpu i wneud y mwyaf o adferiad bioamrywiaeth a chyflawni nifer o nodau megis cynyddu bioamrywiaeth, helpu'r economi leol, lleihau allyriadau carbon, a darparu seilwaith gwyrdd hygyrch.

*Dewis ardaloedd priodol ar gyfer plannu coed a choetiroedd newydd*

3.1.5. Mae rhai ardaloedd fel mawndiroedd, glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau a gwlyptiroedd eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at atafaelu carbon, yn ogystal â'r gwasanaethau ecosystemau eraill y maent yn eu darparu. Nid yw'r ardaloedd hyn yn addas ar gyfer plannu coed gan y gall coed ddisodli'r fioamrywiaeth bresennol a gwneud mwy o niwed nag o fudd. Rhai o'r lleoedd gorau i blannu coed yw'r rhai lle mae coetir wedi'i golli. Y nod yw gwella'r cwmpas cyffredinol a'r cysylltedd ecolegol a ddarperir gan goed ac ardaloedd coetir newydd, a cheisio cysylltu neu ehangu coetiroedd presennol.

*Defnyddio adfywio naturiol lle bynnag y bo modd*

3.1.6. Gadewch i natur wneud y gwaith drosoch chi. Adfywio naturiol yw'r broses lle mae coetir yn aildyfu ar ôl i ddarn o dir gael ei adael, neu pan fydd coetir yn dechrau adfer ei hun ar ôl i goed gael eu tynnu. Mae'n aml yn rhatach, yn haws ac yn fwy costeffeithiol. Gall cyfraddau dal carbon mewn tir sydd wedi'i adfywio'n naturiol fod 40 gwaith yn uwch nag mewn planhigfa gonfensiynol.



**Mae teneuo'r pinwydd Corsica ym Mharc Gwledig Pen-bre yn annog adfywiad naturiol coed derw, cyll a chelyn.**

*Dewis rhywogaethau i fanteisio i'r eithaf ar enillion bioamrywiaeth*

3.1.7. Cyflwynwch amrywiaeth o rywogaethau brodorol a fydd yn ffynnu yn y lleoliad a ddewisir. Bydd hyn yn helpu i greu cynefin coetir newydd a fydd yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth frodorol ac a fydd yn fwy gwydn ac yn llai tueddol o gael ei effeithio gan glefydau. Gall plannu coed anfrodorol fod yn briodol mewn tirweddau mwy trefol ac mewn ardaloedd â thirweddau cynlluniedig neu hanesyddol. Nid dim ond rhoi coed yn y ddaear yw creu coetir newydd – mae'n ymwneud â darparu'r blociau adeiladu ar gyfer ecosystem newydd.

*Defnyddio deunyddiau planhigion gwydn*

3.1.8. Anelwch at amrywiaeth enetig yn y stoc blannu ac ystyried sut y gallai hinsawdd yr ardal gyfagos newid a gwnewch ddewisiadau gwybodus ynghylch casglu hadau.

*Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer seilwaith, capasiti a chyflenwad hadau*

3.1.9. Gweithiwch gyda’r gymuned leol, darparu hyfforddiant, a rhannu sgiliau a gwybodaeth ynghylch casglu, storio a phlannu hadau. Mae cyflogi pobl o'r ardal leol yn helpu i gryfhau economïau lleol.

*Dysgu drwy wneud*

3.1.10. Gwnewch waith ymchwil i gynigion, profwch syniadau a dulliau, cynhaliwch waith monitro, ac addaswch.

*Gwneud iddo dalu’r ffordd*

3.1.11. Gwireddwch fanteision economaidd coetir newydd neu goetir sy'n adfywio – defnyddiwch yr ardal fel safle i bobl leol ei fwynhau'n anffurfiol neu ar gyfer gweithgareddau mwy ffurfiol. Mae mynediad rheolaidd i goetiroedd a choed yn fuddiol i lesiant corfforol a meddyliol ar sawl lefel.

## 3.2. Targedau cyflawni

3.2.1. Mae coetir yn gorchuddio tua 13% o arwynebedd y DU ar hyn o bryd. Yn yr Alban, mae'n 19%, yng Nghymru 15%, yn Lloegr 10% ac yng Ngogledd Iwerddon 9%. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r ganran i'w chadarnhau (ffigyrau newydd CNC ar gael). Mae gorchudd coetir yn y DU ymhlith yr isaf yn Ewrop (Sbaen 37%; yr Almaen a'r Eidal 32%; Ffrainc 31%).

3.2.2. Mae Cynllun Coed Argyfwng 2021 Coed Cadw yn nodi bod Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn argymell gorchudd coetir o rhwng 17% ac 19% os yw'r DU am fod yn garbon niwtral erbyn 2050. Yn cyd-fynd â hyn, targed Llywodraeth Cymru (LlC) yw plannu 43,000 hectar o goetir newydd yng Nghymru erbyn 2030 (neu tua 5,000 hectar y flwyddyn rhwng 2021 a 2030), a fydd yn cynyddu'r gorchudd coetir yng Nghymru o 15% i 17%. Mae Strategaeth Goedwigaeth yr Alban 2019 i 2029 yn nodi sawl nod, gan gynnwys cynyddu gorchudd coedwigaeth o'r 19% presennol i 21% erbyn 2032. Mae Cynllun Gweithredu Coed Lloegr 2021–2024 yn anelu at gynyddu'r gorchudd coetir yn Lloegr o'r 10% presennol i 12%.

3.2.3. Mae'n debygol y bydd cynlluniau grant Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cefnogi rheoli coetir a phlannu coetir newydd ar ffermydd, gan mai dyma un ffordd o gyflawni'r targed uchod.

**Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn berchen ar 4,713 hectar o dir, uwchlaw'r penllanw cymedrig, ac mae 12% (570 hectar) ohono'n goediog. Wrth ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur y mae wedi'u datgan, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cychwyn adolygiad strategol o ddefnydd tir i nodi tir yn ei berchnogaeth sy'n addas ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu blannu coetir. Bydd plannu coed a choetiroedd yn helpu i fynd i'r afael â'r ddau argyfwng. Byddai plannu 9.5 hectar o goetir newydd ar ystad CSC bob blwyddyn am y 25 mlynedd nesaf yn cynyddu canran y coetir ar dir y cyngor i 17%, gan gyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru ac adlewyrchu cyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU.**

3.2.4. I gydnabod y gall sefydlu coetiroedd newydd fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur y mae wedi'u datgan, mae CSC, trwy ei adolygiad strategol o ddefnydd tir, yn nodi tir a reolir gan ei adrannau addysg, tai ac eiddo sy'n addas ar gyfer plannu coetir. Mae'n ceisio cymorth grant i sefydlu ardaloedd mwy o goetir o fewn ei ddaliadau tir gwledig. Gellir integreiddio sefydlu coetir newydd â defnyddiau eraill – er enghraifft, gall tir sydd i'w ddatblygu ar gyfer ynni adnewyddadwy gynnwys rhai ardaloedd o blannu coetir newydd. Gall y plannu hwn hefyd ddarparu'r budd net i fioamrywiaeth sy'n ofyniad ar gyfer pob caniatâd cynllunio. Ar hyn o bryd, mae CSC yn defnyddio grantiau plannu LlC ac mae grantiau eraill yn talu bron i 100% o gostau'r plannu. Mae grantiau LlC yn cynnig rhywfaint o gyllid tuag at y gwaith cynnal a chadw blynyddol hanfodol, ond efallai na fyddant yn talu'r holl gostau hanfodol.

3.2.5. Yng ngaeaf 2022/23, gyda chymorth grant, plannodd CSC 4.5 hectar o dir ar ei ystad wledig a 300 o goed eraill mewn dau safle arall (Parc Dewi Sant a Gwlyptir Sanclêr). Mae 29 hectar arall eisoes wedi'u nodi fel rhan o adolygiad strategol o ddefnydd tir CSC fel rhai sydd â photensial i'w plannu yn 2024/25. Y cam cyntaf o gyflawni'r strategaeth hon yw rhwng 2024 a 2029. Dros y cyfnod hwn, drwy ei adolygiad

strategol o ddefnydd tir, bydd CSC yn parhau i nodi safleoedd sy'n addas ar gyfer plannu a bydd yn bwrw ymlaen â cheisiadau grant LIC a fydd yn ariannu plannu'r safleoedd hyn. Rhaid i CSC fod yn ymwybodol o'r costau cynnal a chadw hanfodol sy'n gysylltiedig â sefydlu coetir, na fyddant bob amser yn cael eu talu gan gymorth grant.

3.2.6. Mae gan CSC 570 hectar o goetir ar ei ystad, sy'n cyfateb i 12% o orchudd coetir. Bydd sefydlu gorchudd coetir o 17% ar ei dir erbyn 2050, neu 801 hectar, yn unol â chyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, yn gofyn am blannu 238 hectar ychwanegol o goetir newydd, neu 9.5 hectar o goetir bob blwyddyn dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd cyflawni'r nod hwn yn dibynnu'n fawr ar argaeledd cyllid Llywodraeth Cymru, neu gyllid arall.

3.2.7. Dylid adolygu'r Strategaeth Coed a Choetir bob pum mlynedd. Yn ystod y pum mlynedd cyntaf o gyflawni'r strategaeth, cynghorir y bydd CSC yn sefydlu o leiaf 9.5 hectar o goetir newydd bob blwyddyn. Gyda'r adnoddau sydd ar gael a'r angen i ddarparu ar gyfer defnyddiau tir sefydledig eraill, ystyrir bod y swm hwn o blannu newydd yn gyraeddadwy. Dylid adolygu'r targed ac uchelgais hwn yn 2029. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, bydd CSC yn nodi cyfleoedd creu coetir ar draws ei bortffolio tir, a fydd wedi'u cynllunio i ddarparu manteision lluosog.

# 4. Gweithredu a monitro

4.1.1. Mae'r tablau isod yn nodi cyfrifoldebau CSC dros goed a choetiroedd, sut mae'r rhain yn cael eu rheoli ar hyn o bryd, a sut y gall y cyngor wneud mwy nawr i gyflawni yn erbyn yr argyfyngau newid hinsawdd a natur. Rhaid i'r meysydd gwasanaeth sy'n cyflawni'r Strategaeth Coed a Choetir gynnwys y camau gweithredu hyn yn eu cynlluniau busnes adrannol ac adrodd arnynt. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u nodi yn Adran 6.

4.1.2. Bydd elfennau o'r strategaeth yn cael eu cynnwys ym mlaengynlluniau Deddf yr Amgylchedd CSC – mae'r cynlluniau hyn yn rhedeg am dair blynedd, e.e. Ionawr 2023 i Ragfyr 2025. Adroddir yn ffurfiol ar y camau gweithredu yn y cynllun hwn i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd.

4.1.3. Mae CSC wedi sefydlu grŵp cyflawni i swyddogion, wedi'i hwyluso gan ei Adran Cadwraeth Wledig, i lywio a goruchwylio’r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon, ac mae’r grŵp hwn yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i adolygu cynnydd a chytuno ar flaenoriaethau a chyfrifoldebau.

4.1.4. Mae'r strategaeth yn dod o fewn portffolio’r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.

## 4.2. Adnoddau staff

4.2.1. Mae angen adnoddau staff a chyllidebau ar gyfer y canlynol:

4.2.2. Gwirio cydymffurfedd o ran cyflawniad cywir cynlluniau diogelu coed a chynlluniau tirlunio a gymeradwywyd fel rhan o ddatblygiadau.

4.2.3. Cynllunio, cyflawni a rheoli plannu coed yn yr hirdymor ar ystad CSC yn deillio o'r camau gweithredu yn y strategaeth hon, a pholisi cenedlaethol ehangach. Bydd y galw newydd hwn yn cynyddu wrth i CSC gyflwyno cynlluniau seilwaith gwyrdd a glas newydd, yn aml fel rhan o brosiectau eraill, e.e. cynlluniau adfywio economaidd, cynlluniau priffyrdd a thrafnidiaeth, cynlluniau tirlunio sy'n rhan o ddatblygiadau

cymeradwy'r cyngor, cynlluniau i liniaru llygredd aer a gwella tirweddau sain, a phlannu newydd i gyflawni adferiad natur a chydnerthedd ecosystemau. Mae deall yr angen am gynnal a chadw hirdymor ar gyfer unrhyw goed sy'n cael eu plannu a'r adnoddau ar gyfer hynny yn hanfodol i lwyddiant cyflawni'r strategaeth. Ni ddylai sefydlu coed llwyddiannus gael ei adael i siawns.

4.2.4. Datblygu a hyrwyddo canllawiau cynllunio atodol ar gyfer seilwaith gwyrdd a glas, dylunio tirwedd, ac integreiddio coed i gynlluniau a phrif gynlluniau draenio trefol cynaliadwy ar sail natur. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi sut y bydd seilwaith gwyrdd a glas yn cael ei gyflwyno mewn modd integredig ar y safleoedd mwy a ddyrannwyd ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

4.2.5. Monitro ansawdd aer pellach, os oes angen, i lywio targedu plannu coed mewn ardaloedd problemus.

4.2.6. Datblygu a chyflawni cynllun cyfathrebu ar gyfer Strategaeth Coed a Choetiroedd CSC.

# 5. Tablau camau gweithredu

5.1.1. Mae Tabl 1: A–G yn nodi cyfrifoldebau CSC o ran coed a choetiroedd a sut mae'n mynd ati i reoli coed a choetiroedd ar ei ystad ei hun ac ar dir preifat. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â strategaeth y cyngor ar gyfer clefyd coed ynn a’r strategaeth rheoli coed a gyhoeddwyd ganddo yn 2023 (gweler Atodiad A a B, yn y drefn honno).

5.1.2. Mae Tabl 2: H–J yn nodi pam y dylai CSC blannu mwy o goed, a sut y gellid cyflawni hyn.

## 5.2. Tabl 1 – Rheoli coed a choetiroedd presennol

| | | |
|---|---|---|
| **A** | **Cynnal a chadw tiroedd, tai, addysg, gofal cymdeithasol** | **Yn ymwneud â…**<br>Pob coeden yn y parth cyhoeddus a reolir gan yr adran cynnal a chadw tiroedd ar gyfer CSC, e.e. coed ar strydoedd ac mewn meysydd parcio, coed mewn parciau, coed a reolir o fewn terfynau priffyrdd.<br>Coed yn cael eu rheoli ar bob safle CSC gan yr adran cynnal a chadw tiroedd. |
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | O dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984, a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb am ddiogelwch y cyhoedd. Mae timau cynnal a chadw tiroedd CSC yn rheoli coed ar draws amrywiaeth o dir a reolir gan y cyngor. Mae adran priffyrdd a thrafnidiaeth CSC yn gyfrifol am rai coed ar strydoedd ac mewn meysydd parcio. Mae cynghorau tref a chymuned hefyd yn rheoli coed yn rhai o'r ardaloedd hyn. | |
| **Ble rydyn ni nawr?** | Mae Strategaeth Rheoli Coed Sir Gaerfyrddin (Medi 2019) yn nodi sut mae CSC yn rheoli coed ar ei eiddo (gweler Atodiad A).<br>Cynhelir arolygon diogelwch coed arferol gan ddefnyddio system TreeAssured ym mhob eiddo CSC lle mae coed, ac mae hyn yn cynnwys pob safle ysgol a Llwybr Diogel i'r Ysgol lle mae problemau o ran diogelwch coed.<br>Mae staff CSC, e.e. arolygwyr priffyrdd, wedi'u hyfforddi mewn archwiliadau coed gweledol, a chynigir sesiynau hyfforddiant gloywi'n rheolaidd. Cynhelir y sesiynau hyfforddiant hyn gan y Gymdeithas Coedyddiaeth.<br>Mae cynllun clefyd coed ynn CSC yn nodi sut mae CSC yn rheoli coed yr effeithir arnynt gan glefyd coed ynn. Gweler Atodiad B. | |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | Sicrhau bod pob adran sydd â chyfrifoldeb am goed yn deall y canlynol:<br>ble gellir derbyn arweiniad<br>bod rhaid arolygu coed y mae'n gyfrifol amdanynt yn rheolaidd er mwyn diogelwch gan ddefnyddio system TreeAssured a bod rhaid cwblhau'r holl waith angenrheidiol a nodwyd yn yr arolwg o fewn yr amserlen benodedig<br>bod rhaid i gyllidebau fod ar waith i ariannu gwaith rheoli coed (ac eithrio clefyd coed ynn, sy'n cael ei ariannu'n gorfforaethol)<br>Sicrhau bod yr holl goed a choetiroedd yn y parth cyhoeddus ac y mae CSC yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli fel adnodd cynaliadwy, ac yn unol â'r Strategaeth Rheoli Diogelwch Coed a gyhoeddwyd gan CSC, a'i ddull o reoli clefyd coed ynn.<br>Sicrhau bod coed y mae'n rhaid eu tynnu am resymau diogelwch ar ystad CSC yn cael eu disodli gan ddefnyddio egwyddor y goeden gywir yn y lle cywir.<br>Hyrwyddo arferion rheoli gorau ar gyfer rheoli coed, drwy gyhoeddi canllawiau a darparu hyfforddiant.<br>Hyrwyddo mapio a defnyddio cynlluniau rheoli ar gyfer pob coeden y mae CSC yn gyfrifol amdani.<br>Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coed presennol a'r gwasanaethau ecosystemau maen nhw'n eu darparu. | |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **1. Parhau i wella sylfaen sgiliau swyddogion CSC gyda hyfforddiant diogelwch coed a rheoli coed rheolaidd i staff CSC.**<br>**2. Parhau i gwblhau arolygon diogelwch rheolaidd o bob coeden stryd y mae CSC yn gyfrifol amdani a chynnal y gwaith angenrheidiol.**<br>**3. Sicrhau bod unrhyw goed sy'n cael eu tynnu gan CSC am resymau diogelwch yn cael eu disodli.** | |

| B | Coed a choetir presennol mewn parciau gwledig a gwarchodfeydd natur lleol a reolir gan yr adrannau Hamdden Awyr Agored a Lle a Seilwaith | **Yn ymwneud â…**<br>Safleoedd fel Parc Gwledig Pen-bre; Parc Gwledig Llyn Llech Owain, Gors-las; Ynys Dawela, Brynaman; Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig, Llanelli; Cyrchfan Ddenu Pentywyn; Iard Morlais, Trimsaran; Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn; Cronfeydd Dŵr Cwmoernant, Caerfyrddin. |
|---|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | O dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984, a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb am ddiogelwch y cyhoedd. Wrth reoli coed yn yr ardaloedd hyn, rydym yn rhoi sylw i'r canlynol:<br>• Bioamrywiaeth – Deddf yr Amgylchedd<br>• Manteision cymdeithasol – polisïau amwynderau CSC<br>• Diogelwch y cyhoedd – Deddfau Atebolrwydd Meddianwyr, Deddf Iechyd a Diogelwch, polisi coed a strategaeth clefyd coed ynn CSC<br>• Deddfwriaeth coedwigaeth – Deddf Coedwigaeth a Safon Coedwigaeth y DU | |
| **Ble rydyn ni nawr?** | Rydym yn rheoli materion iechyd a diogelwch ac yn defnyddio cyfleoedd ariannu grantiau i gynnal rheolaeth coetir. Caiff safleoedd eu harolygu'n rheolaidd gan ddefnyddio'r system TreeAssured a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli risgiau coed. Mae staff ym maes hamdden awyr agored sy'n rheoli parciau gwledig CSC a safleoedd tebyg wedi'u hyfforddi mewn archwilio coed yn weledol. | |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | Sicrhau bod pob coeden a choetir ar ystad CSC yn cael eu rheoli fel adnodd cynaliadwy, ac yn unol â gweithdrefnau diogelwch coed CSC gan ddefnyddio system TreeAssured.<br>Sicrhau bod CSC yn cyflawni'r cynlluniau rheoli sydd ar waith ar gyfer y coed a'r coetiroedd yn ei barciau gwledig, mannau gwyrdd a gwarchodfeydd natur lleol. Bydd y rhain yn darparu amrywiaeth o fuddion ac yn mynd i'r afael ag adferiad natur ac atafaelu carbon a byddant yn defnyddio system goedamaeth fach ei heffaith fel coedwigaeth gorchudd parhaus, a byddant yn diogelu mynediad cyhoeddus. | |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **4. Cadw golwg ar reolaeth coetir ar ystad CSC, gan sicrhau bod ei goetir yn destun cynlluniau sy'n mynd i'r afael â'u rheolaeth gynaliadwy.**<br>**5. Nodi cyllid ar gyfer gweithredu cynlluniau – gan gynnwys cyllid grant a ffynonellau cyllid posibl i dalu costau sy'n ychwanegol at gymorth grant. Cytuno ar weithredu cynlluniau rheoli wedi'u costio ar gyfer coetir CSC gyda'r adrannau perthnasol.** | |

| C | Coed a choetiroedd ar ffermydd sirol CSC, ar ei ddaliadau tir gwledig, ac ar ei safleoedd a gynigir ar gyfer gwarediadau | **Yn ymwneud â…**<br>Gwiriwch yr adran gyflwyniad ynglŷn â llawer o fuddion. |
|---|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | O dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984, a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb am ddiogelwch y cyhoedd.<br><br>Strategaeth Rheoli Diogelwch Coed CSC a'r strategaeth ar gyfer clefyd coed ynn<br><br>Deddfwriaeth a pholisi coedwigaeth – Safon Coedwigaeth y DU<br>Bioamrywiaeth – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | |
| **Ble rydyn ni nawr?** | Mae Swyddog Coetiroedd CSC yn cynghori ac yn goruchwylio gwaith pan fydd problemau, e.e. coed mewn coetiroedd ar ffermydd CSC yn cael eu cwympo gan y gwynt. Gall y Swyddog Diogelwch Coed gynghori ar faterion diogelwch coed lle gallai diogelwch coed effeithio ar bobl neu eiddo. | |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | Sicrhau bod pob coeden a choetir ar ystad CSC yn cael eu rheoli fel adnodd cynaliadwy, yn unol â'i weithdrefnau diogelwch coed<br><br>Gweithio gyda'r Grŵp Adolygu Defnydd Tir Strategol i nodi cyfleoedd i wella rheolaeth y coetir presennol ac ehangu'r adnodd coetir ar ffermydd y sir<br><br>Hyrwyddo'r defnydd o systemau coedamaeth bach eu heffaith ar ystad CSC fel coedwigaeth gorchudd parhaus, a cheisio osgoi llwyrdorri pan fo'n bosibl<br><br>Dylunio prosiectau rheoli/plannu coed a choetir i gyflawni manteision lluosog<br><br>Sicrhau'r cyllid a fydd ei angen ar gyfer rheoli coetir yn ychwanegol at y grant LIC sydd ar gael<br><br>Hyrwyddo plannu coed newydd yn lle coed marw, heintiedig ac anniogel<br>Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coed a choetiroedd presennol ar ffermydd sirol CSC ac o'r manteision lluosog a'r gwasanaethau ecosystemau y maent yn eu darparu | |

| | |
|---|---|
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **6. Datblygu'r gwaith o reoli'r coed a'r coetir ar ffermydd sirol CSC fel y nodir uchod.** |

| D | Priffyrdd CSC | Yn ymwneud â…<br>Coed a choetiroedd ar dir preifat wrth ymyl y briffordd a all effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd. |
|---|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | O dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984, a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb am ddiogelwch y cyhoedd. O dan Ddeddf Priffyrdd 1980, mae gan CSC, fel yr awdurdod priffyrdd, ddyletswydd i sicrhau bod priffyrdd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon ddiogel. Mae hyn yn cynnwys coed ar dir preifat sydd â'r potensial i achosi niwed i ddefnyddwyr priffyrdd. | |
| **Ble rydyn ni nawr?** | Mae Strategaeth Rheoli Coed Sir Gaerfyrddin (wedi'i diweddaru 2023) yn nodi sut mae CSC yn rheoli coed gerllaw priffyrdd https://www.sirgar.llyw.cymru/media/sn3plav0/cy-ccc-tree-management-strategy-dec-2023.pdf<br><br>Yn ogystal, mewn ymateb i ledaeniad clefyd coed ynn ar draws y sir, cynhelir arolygon coed rheolaidd ar draws y rhwydwaith ffyrdd gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ffyrdd Dosbarth A a B a ffyrdd Dosbarth C eraill sy'n cael eu defnyddio'n aml.<br><br>Mae arolygwyr priffyrdd wedi'u hyfforddi ac yn cwblhau hyfforddiant gloywi yn ôl yr angen mewn technegau arolygu coed yn weledol a sut i adnabod a deall y risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd coed ynn a materion diogelwch coed eraill.<br>Rhoddir cyngor ac arweiniad i berchnogion coed gerllaw'r briffordd sy'n peri risg i'r cyhoedd ar sut i reoli'r risg hon, a chymhwysir darpariaethau Deddf Priffyrdd 1980 pan fo angen. Gweler tudalennau CSC ar glefyd coed ynn https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/newid-hinsawdd-a-bioamrywiaeth/bioamrywiaeth/clefyd-coed-ynn/ | |

| | |
|---|---|
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | Parhau i godi ymwybyddiaeth o’r canlynol:<br>• cyfrifoldeb perchnogion tir i reoli eu coed a'u coetiroedd gerllaw'r briffordd<br>• arferion gwaith diogel<br><br>Darparu hyfforddiant gloywi parhaus i arolygwyr priffyrdd a'u cadw'n gyfredol â materion diogelwch coed a rheoli coed.<br><br>Gan ddefnyddio gwefan CSC, parhau i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth bywyd gwyllt sy'n berthnasol i gael gwared â choed a dulliau gwaith priodol sy'n lleihau effeithiau andwyol, a darparu cyngor ac annog plannu coed newydd pan fo’n priodol.<br><br>Gweithio gyda chwmnïau rheoli coedwigoedd ac CNC i godi ymwybyddiaeth o effeithiau rheoli coedwigoedd ar y risgiau hyn a sut y gellir eu lleihau orau. Er enghraifft:<br>• Cysylltu â rheolwyr coetir ger ffyrdd y sir, yn enwedig y rhai lle mae llethr coediog serth uwchben y ffordd, lle gall llwyrdorri ynghyd â digwyddiadau glaw trymach arwain at dirlithriadau<br>• Annog rheolwyr coetir i ymarfer systemau coedamaeth sy'n osgoi llwyrdorri ac yn galluogi ymyl coedwig naturiol sy'n llawn llwyni i ddatblygu ochr yn ochr â'r ffordd<br>• Rheoli priffyrdd CSC mewn perthynas â choed o fewn terfynau priffyrdd ac wrth ymyl ffyrdd yn unol â Seilwaith Priffyrdd a Reolir yn Dda: Cod Ymarfer (Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU, 2017)<br>Gweithio gyda thîm cyfathrebu CSC, a all gefnogi swyddogion i ledaenu gwybodaeth am reoli coed a phlannu coed. |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni’n…)** | **7. Parhau i nodi a gweithredu gwaith diogelwch coed, yn gyson ag arfer gorau'r diwydiant, a darparu hyfforddiant rheolaidd i swyddogion CSC.**<br>**8. Parhau i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ynghylch materion diogelwch coed gyda thirfeddianwyr preifat.**<br>**9. Gweithio gyda rheolwyr coedwigoedd ac CNC i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch coed ac effeithiau rheoli coedwigoedd ar briffyrdd a sut y gellir lleihau'r risgiau hyn.** |

| E | Cadwraeth wledig | **Yn ymwneud â…**<br>Coed sy'n destun gorchmynion cadw coed a choed o fewn ardaloedd cadwraeth. |
|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | Coed sy'n destun gorchmynion cadw coed – mae gan CSC bwerau cyfreithiol disgresiynol i ddynodi gorchmynion cadw coed, a gosod gorchmynion ar goed sy'n bodloni'r meini prawf amwynder angenrheidiol. Os oes angen gwaith ar goeden sy'n destun gorchymyn cadw coed, rhaid gwneud cais ffurfiol i'r awdurdod cynllunio lleol, a fydd yn penderfynu a ddylai'r gwaith fynd rhagddo.<br>Coed o fewn ardaloedd cadwraeth – os bwriedir gwneud gwaith ar goeden mewn ardal gadwraeth, rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol. Os ydyn nhw'n gwrthwynebu'r gwaith, rhaid gosod gorchymyn cadw coed ar y goeden honno. |
| **Ble rydyn ni nawr?** | Coed sy'n destun gorchmynion cadw coed – mae CSC yn penderfynu ar geisiadau i wneud gwaith ar goed sy'n destun gorchmynion cadw coed.<br><br>Mae'n gosod gorchmynion cadw coed ar goed pan fydd y meini prawf angenrheidiol wedi'u bodloni a bod bygythiad i goeden.<br>Coed o fewn ardaloedd cadwraeth – mae CSC yn penderfynu ar geisiadau i wneud gwaith ar goed mewn ardaloedd cadwraeth. |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | Cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer adolygu tua 200 o orchmynion cadw coed yn Sir Gaerfyrddin, gan nodi'r adnoddau dynol, y dechnoleg gwybodaeth a'r adnoddau ariannol sydd eu hangen, a'r gyllideb angenrheidiol.<br>Nid yw hyn wedi cael ei wneud ers tua deng mlynedd. Efallai fod rhai coed sydd wedi'u gwarchod wedi marw, e.e. oherwydd clefyd coed ynn. |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **10. Datblygu a dechrau cyflawni cynllun gweithredu ar gyfer adolygu gorchmynion cadw coed Sir Gaerfyrddin.**<br>**11. O dan yr adolygiad, cadw'r angen am orchmynion cadw coed newydd i amddiffyn coed sydd dan fygythiad ac sy'n bodloni meini prawf y gorchymyn cadw coed.** |

| F | Lle a chynaliadwyedd | **Yn ymwneud â…**<br>Coed a datblygu |
|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | Mae coed ac effaith datblygu yn cael sylw gan bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Deddf Gwlad a Thref 1990, adran 197 –<br><br>Gall caniatâd cynllunio gynnwys darpariaeth briodol ar gyfer rheoli coed.<br><br>Mae deddfwriaeth torri coed (a orfodir gan CNC) yn berthnasol i dorri coed y tu allan i erddi a pherllannau.<br><br>Ystyrir effaith datblygu ar goed a choetiroedd yn llawn yn y broses gynllunio gyda mewnbwn gan y swyddog coedyddiaeth, y swyddog tirwedd a staff ecoleg cynllunio.<br><br>Mae mynedfeydd a llwybrau coedwig newydd a llwybrau wedi'u huwchraddio hefyd yn destun ceisiadau cynllunio. Mae staff yr adran cadwraeth wledig yn ymateb i ymgynghoriadau ar y rhain, fel y mae'r adran cynllunio priffyrdd, gan sicrhau bod dyluniadau mynedfeydd newydd yn bodloni safonau diogelwch ffyrdd ac yn dderbyniol yn y dirwedd leol ac ati. |

| | |
|---|---|
| **Ble rydyn ni nawr?** | Ymgynghorir â swyddog coedyddiaeth CSC ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar goed. Ymgynghorir â staff tirwedd ac ecoleg yn aml ar geisiadau o'r fath hefyd.<br><br>Cynghorir datblygwyr bod rhaid rheoli effeithiau ar goed drwy osgoi a gwarchod coed ar safle.<br><br>Os gall datblygiad (gan gynnwys yr holl waith adeiladu ar wasanaethau tanddaearol ac uwchben y ddaear, llwybrau mynediad a systemau draenio cynaliadwy) osgoi effeithiau uniongyrchol ar goed, dylid nodi hyn ar gynllun sy'n dangos y parth gwahardd adeiladu angenrheidiol a ble mae'n rhaid gosod unrhyw ffensys amddiffynnol angenrheidiol. Rhaid codi'r rhain cyn dechrau gwaith datblygu yn unol â BS 5837.<br><br>Os oes effeithiau ar y coed presennol, rhaid nodi'r rhain mewn asesiad effaith coedyddiaeth yn unol â BS 5837, gyda mesurau lliniaru wedi'u nodi.<br><br>Os bwriedir tynnu coed, gofynnir am ailblannu fel rhan o gynllun tirlunio a gymeradwywyd gan yr awdurdod cynllunio lleol a bydd cyflwyno'r cynllun hwn yn amod ar y caniatâd a roddir.<br><br>Mae CSC yn disgwyl y bydd yr holl goed presennol o ansawdd a chyflwr priodol yn cael eu cadw i'r graddau mwyaf posibl ar safleoedd datblygu. Rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd ddangos bod y cyfyngiadau a achosir gan goed presennol wedi cael sylw llawn wrth ddylunio'r cynigion.<br><br>Gofynnir am fanyleb ynghylch plannu a chynnal a chadw coed fel rhan o fesurau lliniaru o fewn caniatâd cynllunio a darperir hynny cyn penderfynu yn y rhan fwyaf o achosion. Mae hyn wedi'i gynnwys gan bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru. |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | Mae pob cais cynllunio ar safleoedd lle mae coed yn cynnwys gwybodaeth angenrheidiol ynghylch unrhyw effaith ar y coed.<br><br>Gyda'r adnoddau angenrheidiol yn eu lle, cychwyn gwirio cydymffurfedd o ran cyflawniad cywir cynlluniau amddiffyn coed a chynlluniau tirlunio a gymeradwywyd fel rhan o ddatblygiadau. |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **12. Bydd rheolwyr datblygu yn sicrhau bod pob cais cynllunio ar gyfer safleoedd lle mae coed yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol a bod pob coeden sy'n briodol i'w chadw yn cael ei diogelu yn ystod y gwaith datblygu.**<br><br>**13. Datblygu a darparu adnoddau ar gyfer dull o wirio cydymffurfedd pob cais sy'n cynnwys gwaith yn agos at goed a choetir fel rhan o ganiatâd cynllunio cymeradwy. Gallai ymgeiswyr adrodd ar hyn eu hunain, gan ddangos tystiolaeth o leiaf ei fod wedi'i gwblhau ac o bosibl bod gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud.** |

| | |
|---|---|
| | **14. Nodi mecanweithiau newydd ar gyfer sefydlu cronfeydd i ariannu plannu a gofal hirdymor coed a thirlunio arall yn y parth cyhoeddus.** |

| G | Cadwraeth wledig | **Yn ymwneud â…**<br>Coedwigaeth – Ystad Goetir LlC a mynediadau newydd / wedi'u huwchraddio i goedwigoedd |
|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | Ymgynghorir ag CSC ar gynlluniau adnoddau coedwigoedd hirdymor CNC ar gyfer Ystad Goetir LlC yn Sir Gaerfyrddin.<br>Mae mynedfeydd a llwybrau coedwigoedd newydd ac wedi'u huwchraddio yn destun ceisiadau cynllunio (gweler uchod). |
| **Ble rydyn ni nawr?** | Ymgynghorir ag CSC ar gynlluniau Creu Coetir Glastir yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig y sir, ond nid ar geisiadau am drwyddedau torri coed mewn perthynas â choetir presennol.<br><br>Ymgynghorir ag ef gan CNC ar y cynlluniau adnoddau naturiol coedwigoedd hirdymor ar gyfer Ystad Goetir LlC.<br><br>Yn ei ymatebion i'r uchod, mae CSC yn annog cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i bob cynllun adnoddau coedwigaeth hirdymor. Yn ei ymatebion, mae'n tynnu sylw at y manteision eraill y gall coedwigoedd a choetiroedd newydd eu darparu – mynediad cyhoeddus, tirwedd, rheoli dalgylchoedd dŵr, bioamrywiaeth, ac adferiad natur.<br><br>Yn ei ymatebion i CNC ar gynlluniau ar gyfer Ystad Goetir LlC, mae'n tynnu sylw at yr angen i reoli Ystad Goetir LlC ac i sefydlu coetiroedd newydd mewn ffyrdd sy'n:<br>• osgoi arferion coedwigaeth sy'n dibynnu ar blanhigfeydd un rhywogaeth a llwyrdorri<br>• mabwysiadu arferion coedwigaeth cynaliadwy sy'n gwarchod priddoedd coedwigoedd a charbon pridd, sy'n lleihau llwyrdorri, ac sy'n gwarchod ac yn hyrwyddo bioamrywiaeth<br>• hyrwyddo adferiad natur a chydnerthedd ecolegol, yn unol â dyletswydd CSC, CNC ac LlC o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd<br>• gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r dirwedd<br>• annog systemau rheoli a fydd yn arwain at greu adnodd pren gwerth uchel<br>• lleihau risgiau i ddiogelwch ar y priffyrdd<br>• lleihau llifogydd drwy reoli dŵr ffo<br>• osgoi lledaeniad rhywogaethau goresgynnol<br>hyrwyddo mynediad cyhoeddus |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | Gweld gwelliant yn y ffordd y rheolir adnodd coetir Sir Gaerfyrddin gyda llai o ddibyniaeth ar lwyrdorri a mwy o ddefnydd o systemau coedamaeth bach eu heffaith a fydd yn darparu manteision lluosog – e.e. adfer natur, rheoli dalgylchoedd, a rheoli priddoedd a charbon pridd<br>Gweithio gydag CNC a chwmnïau rheoli coedwigoedd i leihau'r risgiau o reoli coedwigoedd ar briffyrdd |

| | |
|---|---|
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **15. Parhau i ymgysylltu ag CNC ynghylch rheoli Ystad Goetir LlC, a herio CNC i fabwysiadu arferion rheoli coedwigoedd mwy cynaliadwy.**<br><br>**16. Cychwyn trafodaethau gydag CNC a chwmnïau coedwigaeth preifat ynghylch y risgiau y mae coedwigoedd yn eu peri i briffyrdd a sut y gellir lleihau'r rhain.** |

## 5.3. Tabl 2 – Plannu coed a choetiroedd newydd

| H | Adrannau eiddo, addysg, tai, gofal cymdeithasol, cynnal a chadw tiroedd, priffyrdd a thrafnidiaeth, a lle a chynaliadwyedd CSC | **Yn ymwneud â…**<br>Bydd plannu coed a choetiroedd ar dir CSC ac yn y parth cyhoeddus yn mynd i'r afael â'r argyfwng natur, yn lliniaru effeithiau clefyd coed ynn ac yn mynd i'r afael â newid hinsawdd. |
|---|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | Mae Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (2021-25) Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddefnyddio'r map llwybr a'r canllaw adrodd i ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau erbyn mis Mawrth 2023 i gyflawni sector cyhoeddus sero net ar y cyd erbyn 2030. Mae Polisi 84 yn cefnogi ymrwymiadau i fapio daliadau tir awdurdodau lleol erbyn mis Ebrill 2022 i nodi mathau o dir a'u potensial atafaelu er mwyn datblygu cynlluniau i wneud y mwyaf o fanteision carbon ac ynni adnewyddadwy ac i nodi mesurau rheoli llifogydd posibl; mae hefyd yn cefnogi atafaelu carbon fel pwrpas craidd dilys ar gyfer defnyddio tir cyhoeddus a chyfleoedd y mae awdurdodau lleol yn eu dilyn yn weithredol ar eu tir eu hunain, gan gynnwys adfer cynefinoedd, plannu coed ac ati, yn ôl yr angen.<br><br>Ar 20 Chwefror 2019, ymrwymodd Cyngor Sir Caerfyrddin yn unfrydol i wneud Cyngor Sir Caerfyrddin yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. Cam gweithredu NZC-15 yng nghynllun llwybr carbon sero net y cyngor yw archwilio dichonoldeb plannu coed, a mesurau tebyg eraill, ar dir a reolir gan y cyngor i gyfrannu at niwtraleiddio carbon.<br><br>Mae LlC ac CSC wedi cyhoeddi argyfwng natur. Bydd ehangu maint y coetir llydanddail brodorol a nifer y coed unigol rydyn ni'n eu plannu yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. Mae rheoli adnoddau coetir presennol CSC yn gynaliadwy a phlannu coed a choetiroedd newydd hefyd yn hanfodol ar gyfer adferiad natur.<br><br>Mae Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r gofyniad i wella bioamrywiaeth, a all gynnwys plannu coed fel gofyniad cynllunio.<br><br>Mae CSC yn hwyluso Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, sy'n paratoi Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin. Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at rôl coetir yn Sir Gaerfyrddin wrth ddarparu ar gyfer adferiad natur. Gweler Rhan 2, tudalen 33, o'r canlynol:<br><br>https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/newid-hinsawdd-a-bioamrywiaeth/bioamrywiaeth/partneriaeth-natur-sir-gaerfyrddin/ | |

| | |
|---|---|
| **Ble rydyn ni nawr?** | Mae Grŵp Adolygu Defnydd Tir Strategol CSC yn adolygu ei ddaliadau tir ac yn asesu ble mae cyfleoedd i blannu coed ar dir CSC, a ble mae cyfleoedd ar gyfer mwy o ynni adnewyddadwy. Mae plannu i atafaelu carbon yn cael ei drin ar y cyd â'r canlynol:<br>• darparu seilwaith gwyrdd a chyfleoedd i ddarparu mynediad cyhoeddus<br>• gostyngiad mewn lefelau ffosffad mewn cyrsiau dŵr<br>• mesurau cydbwyso am golledion coed oherwydd clefyd coed ynn<br>• lleihau llygredd aer a gwella tirweddau sain<br>• gwelliannau mewn rheoli dŵr, ymdreiddiad, a lleihau llifogydd i lawr yr afon<br>• adferiad natur a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd a chysylltedd ecolegol gwell<br>• Mae tri chynllun plannu coetir newydd yn Ffair-fach, Cydweli a Llandybïe eisoes yn cael eu datblygu gyda chymorth grant LlC sy'n cyflawni yn erbyn yr agendâu uchod. Cyfanswm arwynebedd y cynlluniau hyn yw 4.5 hectar. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu plannu yn ystod gaeaf 2022/23.<br>• Mae'r Swyddog Diogelwch Coed yn gweithio gydag ysgolion i nodi cyfleoedd ar gyfer plannu coed newydd, ar y cyd â gwaith diogelwch coed. |

| | |
|---|---|
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | • Sicrhau ymrwymiad a chyllid ar draws CSC ar gyfer cost plannu a gofynion cynnal a chadw hirdymor y coed sy'n cael eu plannu.<br>• Codi ymwybyddiaeth o'r manteision lluosog a chysylltiedig o blannu coed a choetiroedd, sy'n cynnwys atafaelu carbon, adfer natur, a chydbwyso am y colledion sy'n gysylltiedig â chlefyd coed ynn. Cydlynu ceisiadau am grantiau i gyflawni'r prosiectau hyn.<br>• Dyhead hirdymor CSC fydd cynyddu gorchudd coetir ar dir CSC o 5.34% i 17% yn unol â tharged y DU. Yn y tymor canolig, ein nod fydd dyblu gorchudd coetir ar dir y sir erbyn 2050. Er mwyn cyflawni'r targed tymor canolig hwn, yn amodol ar grantiau plannu ar waith, byddwn yn plannu o leiaf 13 hectar o goetir newydd bob blwyddyn. Bydd y targed hwn yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.<br>• Sicrhau bod pob prosiect CSC yn cael ei asesu am gyfleoedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd – e.e. prosiectau adfywio â chymorth grant, gwelliannau priffyrdd, ysgolion newydd, datblygiadau tai newydd. O fewn y prosiectau hyn, adolygu a lleihau'r ardaloedd a neilltuwyd ar gyfer glaswelltir amwynder newydd, gan ddisodli'r rhain â choed, coetir a llwyni yn ôl yr angen.<br>• Adolygu'r ardal o laswelltir amwynder y mae CSC yn ei rheoli, a lle bo'n briodol sefydlu coetir a choed. Defnyddio dyluniadau plannu a fydd yn yr hirdymor yn lleihau costau cynnal a chadw'r ardaloedd hyn.<br>• Nodi a chyflawni o leiaf chwe chynllun plannu newydd y flwyddyn ar dir a reolir gan CSC – tai, priffyrdd, addysg, eiddo ac adfywio – gan blannu o leiaf 13 hectar y flwyddyn hyd at 2029.<br>• Ar ffermydd CSC sydd â thenantiaid, cefnogi tenantiaid a allai fod eisiau plannu coed a choetiroedd. Pan ddaw tenantiaeth ffermydd i ben, adolygu'r cyfleoedd coed a choetir a fydd yn darparu manteision lluosog. Bydd cynigion plannu ar ffermydd rhent yn cael eu cadarnhau gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau.<br>• Tynnu 1 o bob 100 o leoedd parcio ceir o feysydd parcio CSC a phlannu coeden yn lle hynny i gydnabod y cysylltiad rhwng teithio mewn car ac ôl troed carbon.<br>• Lle nad yw hyn yn gwrthdaro â gwerth presennol ardal ar gyfer bioamrywiaeth, a lle bo'n briodol, cynyddu'r gorchudd coed a choetir ym mharciau gwledig a gwarchodfeydd natur lleol CSC.<br>• Ymgysylltu â chymunedau lleol wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer plannu coed a choetir. |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **17. Sicrhau ymrwymiad ar draws CSC i gynyddu nifer y coed a maint y gorchudd coetir ar ei ystad o 5.34% i 17% erbyn 2050 ac i blannu o leiaf 13 hectar o goetir newydd bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd cyntaf o gyflawni'r strategaeth hon.** |

| | |
|---|---|
| | **18. Hyrwyddo a mabwysiadu canllawiau syml, hawdd eu dilyn ar gyfer plannu a chynnal a chadw coed yn seiliedig ar gyngor gan y Gymdeithas Coedyddiaeth, Coed Cadw a Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio.**[1]<br><br>19. **Datblygu a dangos dull integredig o blannu coed a choetiroedd newydd ar draws prosiectau CSC a fydd yn cyflawni yn erbyn sawl agenda: seilwaith gwyrdd a glas, systemau draenio cynaliadwy, atafaelu carbon, adferiad natur, clefyd coed ynn, tirwedd ac amwynder, lleihau ffosffadau, a gwella ansawdd aer.**<br><br>20. **Sicrhau bod yr holl goed newydd sy'n gysylltiedig â phrosiectau CSC yn cael eu plannu a'u cynnal yn unol â'r cynllun dylunio y cytunwyd arno.** |

[1] Gweler hefyd fideo dwyieithog ar blannu coed a wnaed yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer ysgolion: Plannu coed mewn tiroedd ysgol / Tree Planting in School Grounds – YouTube
- https://www.youtube.com/watch?v=Aqe4JsWx060

Mae deunyddiau cysylltiedig eraill isod:
- https://www.trees.org.uk/Help-Advice/Guide-to-Young-Tree-Establishment
- https://www.trees.org.uk/Help-Advice/Arboricultural-Resources
- https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/advice/
- https://www.tdag.org.uk/trees-in-hard-landscapes.html

| I | Diogelu'r cyhoedd a phrosiectau dan arweiniad y cyngor | **Yn ymwneud â…**<br>Plannu coed a choetiroedd i wella ansawdd aer yn ein hardaloedd mwy trefol |
|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | Mae ansawdd aer mewn llawer o ardaloedd trefol Prydain yn is na'r safonau a argymhellir. Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn gyfrifol am adolygu ac asesu ansawdd aer – swyddogaeth statudol o dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd 1995. Drwy'r drefn hon, nodwyd mai'r prif lygrydd sy'n peri pryder i Sir Gaerfyrddin yw nitrogen deuocsid ($NO_2$) o gerbydau ffordd. Mae gennym 98 o leoliadau ledled y sir lle mae $NO_2$ yn cael ei fesur (trwy diwbiau tryledol – arfer safonol a amlinellir yn y ddogfen ganllaw berthnasol), ac mae gennym dair ardal rheoli ansawdd aer lle mae lefelau uwchlaw terfynau statudol blynyddol mewn lleoliadau "mannau problemus". Mae ardaloedd rheoli ansawdd aer yn Llandeilo, Llanelli a Chaerfyrddin. Nod yr ardaloedd rheoli ansawdd aer yw gwella ansawdd aer i sicrhau nad yw'r safonau'n cael eu torri.<br>Mae plannu coed yn un ffordd o wella ansawdd aer, a gall hefyd helpu i wella tirweddau sain, cefnogi gweithredu ar yr hinsawdd, gwella iechyd a llesiant, a gwella bioamrywiaeth. |
| **Ble rydyn ni nawr?** | Plannu coed yn Ysgol Tre Ioan yn dilyn dadansoddiad o ansawdd aer (Iechyd y Cyhoedd, Ysgol Tre Ioan, Coed Cadw)<br>Gweithredu plannu coed ar hap wrth i gyfleoedd ariannu godi, e.e. plannu coed ym Mharc Dewi Sant drwy grant seilwaith gwyrdd Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles LlC |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | • Nodi ardaloedd â'r ansawdd aer isaf yn Sir Gaerfyrddin a chyfleoedd ar gyfer plannu coed, e.e. tiroedd ysgolion a fyddai'n gwella ansawdd aer yn yr ardaloedd hyn. Cyflwyno mentrau plannu coed mewn cydweithrediad ag Iechyd y Cyhoedd ac ysgolion (mae mentrau Eco-Sgolion ac Ysgolion Iach yn berthnasol)<br>• Gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ar gyfer plannu mewn mannau agored a rheoli coed presennol lle mae llygredd aer yn broblem a lle gellir gwella tirweddau sain<br>• Sicrhau bod pob prosiect CSC sydd â'r capasiti i blannu coed neu goetiroedd a allai helpu i fynd i'r afael ag ansawdd aer yn gwneud hynny. Adolygu glaswelltir amwynder fel defnydd tir mewn prosiectau o'r fath, ac ystyried ardaloedd lle gellid disodli glaswellt â phlannu coed, llwyni neu goetir<br>• Nodi llwybrau teithio llesol a fyddai'n osgoi ardaloedd â'r ansawdd aer isaf, ac integreiddio'r rhain â mentrau GBI<br>• Rhoi'r gyllideb ac adnoddau staff angenrheidiol ar waith i gyflawni'r uchod |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **21. Nodi ardaloedd yn y sir lle mae llygredd aer/sŵn yn destun pryder mwyaf a lle mae cyfleoedd gerllaw hefyd ar gyfer plannu coed, e.e. ysgolion.**<br>**22. Datblygu cynlluniau wedi'u costio ar gyfer cynlluniau hyfyw sy'n cynnwys yr adnoddau staff sydd eu hangen ar gyfer cyflawni a chynnal a chadw'r ardaloedd hyn yn yr hirdymor.** |

| | |
|---|---|
| | **23. Chwilio am gyfleoedd i roi'r adnoddau staff a'r cyllidebau sydd eu hangen ar waith a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni mentrau plannu coed a choetir, a mentrau seilwaith gwyrdd a glas, mewn ardaloedd trefol ledled Sir Gaerfyrddin, gyda'r nod o liniaru llygredd aer a gwella ansawdd aer (gan gynnwys ardaloedd rheoli ansawdd aer – Atodiad C).** |

| J | Lle a chynaliadwyedd | **Yn ymwneud â…**<br>Plannu coed a choetiroedd a datblygiadau newydd a darparu seilwaith gwyrdd, tirwedd, systemau draenio cynaliadwy, adferiad natur / gwelliant ecolegol. Ymgynghori ar gynlluniau Creu Coetir Glastir neu gynlluniau tebyg. Cyfleu Strategaeth Coed a Choetir CSC. |
|---|---|---|
| **Beth yw cyfrifoldebau CSC?** | Mae Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru a pholisi cynllunio lleol yn mynd i'r afael â materion coed, ecoleg, darparu seilwaith gwyrdd a glas, a thirlunio fel rhan o'r broses gynllunio.<br><br>Mae dogfen CSC Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin yn gofyn am strategaeth fel a ganlyn: Cam Gweithredu 23: Hyrwyddo strategaeth coed i wella'r amgylchedd a chymryd camau i leihau effaith ar lygredd aer a sŵn yn ein hardaloedd mwy poblog.<br><br>Mae Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu targedau brigdwf gofynnol sy'n briodol, yn berthnasol yn lleol ac y mae'n rhaid eu cyflawni o fewn amser penodol ar gyfer ardal eu hawdurdod er mwyn llywio'r gwaith o ddiogelu a, lle bo angen, ymestyn y brigdwf. At ddibenion cynghori datblygwyr, bydd yn fwy perthnasol mynegi hyn o ran yr arwynebedd o fewn safle y dylid ei blannu.<br><br>Mae Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru yn hyrwyddo datblygu seilwaith gwyrdd a glas. Mae Rhifyn 12 y polisi yn yn pwysleisio bod gan seilwaith gwyrdd a glas rôl sylfaenol wrth lunio lleoedd a'n hymdeimlad o lesiant, ac felly dylai'r system gynllunio amddiffyn a gwella asedau seilwaith gwyrdd a glas a rhwydweithiau ecolegol. Yn unol â Rhifyn 12 y polisi, cynhaliwyd asesiad seilwaith gwyrdd a glas o fewn y sir, ac mae hwn yn cael ei ddefnyddio fel offeryn i lywio'r gwaith o baratoi'r CDLl diwygiedig (Land Use Consultants, Chwefror 2022). Mae gwaith pellach sy'n manylu ar seilwaith gwyrdd a glas wedi'i gynnwys yn y canllawiau cynllunio atodol ar gyfer creu lleoedd a dylunio, a fydd yn cael eu diweddaru fel rhan o'r broses o lunio'r CDLl diwygiedig. Mae plannu coed a choetiroedd yn un mecanwaith cyflawni ar gyfer seilwaith gwyrdd a glas.<br><br>Mae cynllunwyr coetir yn y sector preifat ac CNC yn ymgynghori ag CSC (Adran Cadwraeth Wledig yn Lle a Chynaliadwyedd) ar gynlluniau Creu Coetir Glastir mwy yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig y sir. | |

| | |
|---|---|
| **Ble rydyn ni nawr?** | • Mae caniatâd cynllunio yn aml yn amodol ar ddiogelu coed sy'n bodoli eisoes a, lle caiff coed eu tynnu, ar ailblannu'n sylweddol. Mae tirlunio, sy'n cynnwys plannu coed yn rheolaidd, yn ofyniad ar gyfer llawer o ddatblygiadau.<br>• Mae systemau draenio trefol cynaliadwy yn ofyniad ar gyfer datblygiad, a gall yr ardaloedd hyn gynnwys coed – gweler<br><br>https://www.rspb.org.uk/globalassets/downloads/documents/positions/planning/sustainable-drainage-systems.pdf<br><br>https://www.trees.org.uk/Trees.org.uk/files/d9/d94feb31-759d-40d9-8abd-48715df32f7e.pdf<br>• Gall caniatâd cynllunio hefyd ei gwneud yn ofynnol i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth, a all gynnwys plannu coed a choetiroedd.<br>Mae CSC (Tachwedd 2021) yn datblygu strategaeth seilwaith gwyrdd a glas ar gyfer wyth o drefi a bydd prosiectau plannu coed yn rhan o'r strategaeth hon. |
| **Beth rydyn ni eisiau ei wneud?** | • Sicrhau, fel rhan o ddatblygu cymeradwy, fod y coed ac ardaloedd coetir cywir yn cael eu plannu yn y mannau cywir a'u cynnal am byth<br>• Sicrhau y gwneir iawn yn briodol am unrhyw goed a gollir o ganlyniad i ddatblygiad trwy blannu coed newydd<br>• Datblygu targedau ar gyfer gorchudd coed ar safleoedd datblygu sy'n gyson â dull CSC o ymdrin â seilwaith gwyrdd a glas a'i agenda creu lleoedd, ac a fydd yn eu cyflawni<br>• Sicrhau bod plannu coed a choetiroedd yn cael ei gyflawni ar y cyd â phrosiectau seilwaith gwyrdd a glas CSC<br>• Nodi ardaloedd lle gellir plannu coed a choetiroedd i wneud iawn am golli coed ynn oherwydd clefyd coed ynn, a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni a chynnal y prosiectau hyn<br>• Gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni prosiectau plannu coed a choetiroedd yn y parth cyhoeddus, gan wneud defnydd o'r grantiau sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn fel Lleoedd Lleol ar gyfer Natur<br>• Rhoi'r gyllideb ac adnoddau staff angenrheidiol ar waith i gyflawni'r uchod |
| **Camau gweithredu â blaenoriaeth (Byddwn ni'n…)** | **24. Datblygu, cyhoeddi a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol sy'n nodi dull integredig ar gyfer tirlunio, systemau draenio trefol cynaliadwy a darparu seilwaith gwyrdd a glas, rheoli problemau coed, a darparu ar gyfer adferiad natur (gwelliant ecolegol) ar safleoedd datblygu. Rhaid i'r canllawiau hyn dynnu sylw at y buddion lluosog y gall plannu coed a choetir eu darparu. Yn gyson â chanllawiau Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru, dylai'r canllawiau cynllunio atodol nodi dull a fydd yn sicrhau y bydd datblygiadau'n cyflawni targedau CSC ar gyfer plannu coed.**<br><br>**25. Paratoi prif gynlluniau ar gyfer safleoedd mwy a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn nodi sut y bydd seilwaith gwyrdd a glas, systemau draenio trefol cynaliadwy, tirlunio a gwelliannau ecolegol yn cael eu cyflawni fel rhan annatod o ddatblygiadau newydd.** |

| | |
|---|---|
| | **Byddwn yn parhau i wneud sylwadau ar effaith cynigion plannu coetir newydd mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar y dirwedd a bydd y newid hwn mewn defnydd tir yn cael sylw yn asesiad y cyngor, sydd ar droed, o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Sir Gaerfyrddin.**<br><br>26. **Sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i ddatblygu a chyflawni a chynnal prosiectau plannu coed a choetiroedd. Sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar waith i weithredu monitro cydymffurfedd er mwyn sicrhau bod yr holl blannu coed a thirlunio sy'n gysylltiedig â datblygu ledled Sir Gaerfyrddin yn cael ei gyflawni a'i gynnal.**<br><br>27. **Byddwn yn gweithio gyda thîm marchnata a chyfryngau CSC i ddatblygu a chyflwyno cynllun cyfathrebu ar gyfer y Strategaeth Coed a Choetir hon, gan weithio dros gyfnod o dair blynedd i ddechrau.** |

# 28. Cynllun Gweithredu 2024–2029

## 28.1. Camau gweithredu ar gyfer rheoli coed a choetir presennol

| Cyfeirnod y cam gweithredu | Camau gweithredu | Mesur | Gan bwy? (swyddog â chyfrifoldeb) |
|---|---|---|---|
| **TWS/1A1** | Parhau i wella sylfaen sgiliau swyddogion CSC gyda hyfforddiant diogelwch coed a rheoli coed rheolaidd i staff CSC<br>Bydd y swyddog diogelwch coed yn darparu hyfforddiant i staff newydd a diweddariadau rheolaidd i'r holl staff perthnasol ar ddiogelwch coed ac archwilio coed. Swyddogion i fynychu cyrsiau gloywi bob dwy flynedd | Bob blwyddyn, adrodd ar y canlynol:<br>• Nifer y cyrsiau diogelwch coed ac archwilio coed a gynhelir<br>• Canran y swyddogion a nodwyd gan reolwyr fel rhai sydd angen hyfforddiant sydd wedi mynychu cyrsiau o fewn dwy flynedd i'r dyddiad monitro, h.y. y mae eu hyfforddiant diogelwch coed wedi'i ddiweddaru | Swyddog Diogelwch Coed |
| **TWS/1A2** | Parhau i gwblhau arolygon diogelwch o bob coeden stryd y mae CSC yn gyfrifol amdani, a chynnal y gwaith angenrheidiol | Bob blwyddyn, adrodd ar ganran y safleoedd lle mae arolygon o goed strydoedd yn gyfredol a lle mae'r holl waith a nodwyd wedi'i gwblhau | Rheolwr Tiroedd a Glanhau Priffyrdd CSC |
| **TWS/1A3** | Sicrhau bod coed yn cael eu plannu yn lle unrhyw goed sy'n cael eu tynnu gan CSC am resymau diogelwch | Bob blwyddyn, adrodd ar y canlynol:<br>Nifer y coed a dorrwyd am resymau diogelwch a'r nifer y mae trefniadau wedi'u gwneud i roi rhai newydd yn eu lle | Swyddog Diogelwch Coed |
| **TWS/1B4** | Cadw golwg ar reolaeth coetir ar ystad CSC, gan sicrhau bod ei goetiroedd yn destun cynlluniau sy'n mynd i'r afael â'u rheolaeth gynaliadwy | Erbyn mis Tachwedd 2024: Nodi nifer y safleoedd sydd angen cynllun rheoli coetir ar eu cyfer<br>a chychwyn rhaglen dreigl o adolygu cynlluniau rheoli coetir gyda Swyddog Coetir CSC<br>Blaenoriaethu coetir i'w rheoli. Bob blwyddyn, adrodd ar nifer y cynlluniau rheoli coetir a adolygwyd | Uwch-syrfëwr Rheoli Asedau (Eiddo) a Swyddog Coetir CSC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TWS/1B5** | Nodi cyllid ar gyfer gweithredu cynlluniau – gan gynnwys cyllid grant a ffynonellau cyllid posibl i dalu costau sy'n ychwanegol at gymorth grant. Cytuno ar weithredu cynlluniau rheoli wedi'u costio ar gyfer coetiroedd CSC gyda'r adrannau perthnasol | Bob blwyddyn, adrodd ar nifer y coetiroedd, a nodwyd fel blaenoriaethau, i'w rheoli ac y mae cynlluniau rheoli wedi'u costio wedi'u datblygu ar eu cyfer. | Swyddog Coetir CSC |
| **TWS/1C6** | Datblygu'r gwaith o reoli'r coed a'r coetiroedd ar ffermydd sirol CSC fel y nodir yn Nhabl C | Bob blwyddyn, adrodd ar nifer coetiroedd CSC lle mae rheolaeth yn datblygu | Swyddog Coetir CSC |
| **TWS1/D7 Priffyrdd CSC** | Parhau i nodi a gweithredu gwaith diogelwch coed, yn gyson ag arferion gorau'r diwydiant, a darparu hyfforddiant rheolaidd i swyddogion CSC | Darparu adroddiad blynyddol ar nifer y swyddogion sy'n cwblhau hyfforddiant (sicrhewch fod TWS/1A1 yn cael ei gyflawni uchod).<br>Bob blwyddyn, adrodd ar raglen flynyddol o arolygon diogelwch coed ar ffyrdd Dosbarth A a B a ffyrdd Dosbarth C a ddefnyddir yn helaeth<br>Bob blwyddyn, adrodd ar nifer y pecynnau gwaith coed a symudwyd ymlaen trwy System Brynu Ddeinamig CSC ar gyfer gwaith diogelwch coed | Swyddog Diogelwch Coed |
| **TWS/1D8 Priffyrdd CSC** | Parhau i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ynghylch materion diogelwch coed gyda thirfeddianwyr preifat | Bob blwyddyn, adrodd ar yr wybodaeth sy'n cael ei darparu ar wefan CSC ac i sefydliadau partner | Swyddog Diogelwch Coed |
| **TWS/1D9 hefyd yn cwmpasu G15** | Gweithio gyda rheolwyr coedwigoedd ac CNC i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch coed ac effeithiau rheoli coedwigoedd ar briffyrdd a sut y gellir lleihau'r risgiau hyn. Cadw llygad ar yr angen am rwystrau tân mewn ardaloedd coedwig, e.e. Parc Gwledig Pen-bre, a'r ffordd y cânt eu rheoli. | Trefnu cyfarfod yn 2024/25 i drafod hyn gyda'r holl bartneriaid dan sylw. | Rheolwr Cadwraeth Wledig |
| **TWS/1E10** | Datblygu a dechrau cyflawni adolygiad o orchmynion cadw coed Sir Gaerfyrddin. | Anelu at adolygu o leiaf 20 o orchmynion cadw coed bob blwyddyn ac adrodd ar nifer y gorchmynion cadw coed a adolygwyd bob blwyddyn | Swyddog Coedyddiaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TWS/1F11** | Bydd rheolwyr datblygu yn sicrhau bod pob cais cynllunio ar gyfer safleoedd lle mae coed yn cynnwys gwybodaeth goedyddiaeth berthnasol a bod amddiffyniad pob coeden sy'n briodol i'w chadw i safonau BS wedi'i nodi mewn amodau neu mewn dogfennau cymeradwy | Bob tri mis / chwe mis, adrodd ar ganran y ceisiadau cynllunio a dderbynnir ar gyfer safleoedd â choed a lle mae'r rhain wedi'u nodi'n gywir ac wedi'u hategu gan yr wybodaeth goedyddiaeth ofynnol. Anelu at gynyddu'r ffigur hwn | Uwch-reolwyr Datblygu |
| **TWS/1F12** | Datblygu a darparu adnoddau ar gyfer dull o wirio cydymffurfedd pob cais sy'n cynnwys gwaith yn agos at goed ac at goetiroedd fel rhan o ganiatâd cynllunio cymeradwy. Yn ddelfrydol, dylai ymgeiswyr adrodd ar hyn eu hunain, gan ddangos tystiolaeth o'i gwblhau o leiaf ac o bosibl o gynnal a chadw unrhyw goed a blannwyd fel rhan o ganiatâd | Asesu maint y broblem –<br>Erbyn 24 Tachwedd – casglu tystiolaeth ynghylch datblygiadau cymeradwy lle nad yw amodau sy'n ymwneud â choed wedi'u cyflawni'n gywir.<br>Nodi ac asesu opsiynau ar gyfer datrys y mater hwn.<br>Yn 2024/25, treialu gwahanol ddulliau o ddatrys y mater hwn | Rheolwr Cadwraeth Wledig<br>Swyddog Coedyddiaeth<br>Swyddog Tirwedd<br>Uwch-reolwyr Datblygu |
| **TWS/1F13** | Nodi mecanweithiau newydd ar gyfer sefydlu cronfeydd i ariannu plannu a gofal hirdymor coed a thirlunio arall yn y parth cyhoeddus. Mae'r dull hwn yn gyson â chyflawni budd net i fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd ac agenda creu lleoedd CSC. | Mawrth 2024: Adrodd ar drafodaethau y bydd Lle a Chynaliadwyedd yn eu cychwyn ynghylch defnyddio adran 106 a mecanweithiau eraill at y diben hwn.<br>Adrodd yn flynyddol ar y mecanweithiau a ddefnyddiwyd, a'r cyllid a sicrhawyd, a'r prosiectau a gyflawnwyd. | Rheolwr Polisi Strategol a Chreu Lleoedd |
| **TWS/1G14** | Parhau i ymgysylltu ag CNC ynghylch rheoli Ystad Goetir LIC a chyda chynlluniau LIC ar gyfer coetiroedd newydd mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac yn ddelfrydol mewn mannau eraill yn y sir. | Adrodd bob blwyddyn ar nifer y cynlluniau a dderbyniwyd yn flynyddol ar gyfer ymgynghori a'r nifer yr ymatebwyd iddynt o fewn y dyddiad targed | Rheolwr Cadwraeth Wledig |

## 28.2. Camau gweithredu ar gyfer plannu coed a choetiroedd newydd

| Cyfeirnod y cam gweithredu | Camau gweithredu | Mesur | Gan bwy? (swyddog â chyfrifoldeb) |
|---|---|---|---|
| **TWS/2A1** | Sicrhau ymrwymiad ar draws CSC i gynyddu nifer y coed a faint o orchudd coetir sydd ar ei ystad o 5.34% i 17% erbyn 2050. Yn ystod y pum mlynedd cyntaf o gyflawni'r strategaeth, cynghorir y bydd CSC yn sefydlu o leiaf 9.5 hectar o goetir newydd bob blwyddyn. gyda'r adnoddau sydd ar gael a'r angen i ddarparu ar gyfer defnyddiau tir sefydledig eraill. | • Mabwysiadu targed plannu gan y cabinet yn 2024 | Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd |
| **TWS/2A2** | Mabwysiadu a hyrwyddo canllawiau syml, hawdd eu dilyn ar gyfer plannu a chynnal a chadw coed / a gyflwynir yn y parth cyhoeddus yn seiliedig ar gyngor gan y Gymdeithas Coedyddiaeth, Coed Cadw a Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio. Gweler hefyd fideo plannu coed dwyieithog a wnaed yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer ysgolion. | • Tair sesiwn gweithdy fer i staff sy'n ymwneud â phlannu coed fel rhan o friff y prosiect | Swyddog Tirwedd / Swyddog Prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur |
| **TWS/2A3** | Datblygu a dangos dull integredig o blannu coed a choetiroedd ar draws prosiectau CSC a fydd yn cyflawni yn erbyn sawl agenda: seilwaith gwyrdd a glas, systemau draenio trefol cynaliadwy, atafaelu carbon, adferiad natur, clefyd coed ynn, tirwedd ac amwynder, lleihau ffosffadau, a gwella ansawdd aer | • Bob chwe mis, bydd rheolwyr prosiect (eiddo, addysg, tai, adfywio, dylunio eiddo, teithio llesol, gwasanaethau dylunio proffesiynol, priffyrdd ac ati) yn adrodd yn ôl i'r Rheolwr Cadwraeth Wledig ar gynnydd wrth gyflawni seilwaith gwyrdd a glas fel rhan o brosiectau CSC | Rheolwr Cadwraeth Wledig |
| **TWS/2A4** | Rhoi'r adnoddau a mecanweithiau angenrheidiol ar waith i alluogi CSC i ddangos bod yr holl blannu coed newydd sy'n gysylltiedig â phrosiectau CSC yn cael ei gwblhau a bod y coed yn cael eu cynnal yn unol â'r cynllun dylunio y cytunwyd arno. | Bob blwyddyn, nodi holl brosiectau perthnasol CSC sy'n cynnwys plannu coed, gan gynnwys ôl-ofal ym mhriff y prosiect. Swyddogion prosiect i adrodd ar brosiectau CSC lle mae ôl-ofal wedi'i gwblhau'n foddhaol a lle nad yw wedi'i gwblhau'n foddhaol. | Rheolwr Cadwraeth Wledig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TWS/2B5** | Gydag Iechyd y Cyhoedd, nodi ardaloedd yn y sir lle mae llygredd aer/sŵn yn destun pryder mwyaf a lle mae cyfleoedd gerllaw hefyd ar gyfer plannu coed, e.e. ysgolion. Nodi cyfleoedd ariannu ar gyfer plannu a chynnal a chadw'r coed hyn | Adrodd ar gyfarfodydd chwe misol rhwng Iechyd y Cyhoedd a Chadwraeth Wledig ynghylch y cam gweithredu hwn. | Rheolwr Cadwraeth Wledig / Iechyd y Cyhoedd |
| **TWS/2B6** | Datblygu cynlluniau wedi'u costio ar gyfer cynlluniau hyfyw, sy'n cynnwys yr adnoddau staff sydd eu hangen, ar gyfer cyflawni a chynnal a chadw hirdymor cynlluniau plannu coed a choetiroedd a gynlluniwyd i wella ansawdd aer a gwella tirweddau sain | Adrodd bob blwyddyn ar nifer y cynlluniau wedi'u costio a ddatblygwyd / a gyflawnwyd a fydd yn gwella ansawdd aer yn ein hardaloedd mwy trefol. | Rheolwr Cadwraeth Wledig |
| **TWS/2B7** | Chwilio am gyfleoedd i roi'r adnoddau staff a'r cyllidebau sydd eu hangen ar waith a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau dull integredig o gyflawni mentrau plannu coed a choetiroedd, systemau draenio trefol cynaliadwy, a seilwaith gwyrdd a glas mewn ardaloedd trefol ledled Sir Gaerfyrddin, a fydd yn darparu manteision lluosog, gan gynnwys lleihau llygredd aer a gwella ansawdd aer. | Mawrth 2024: darparu tystiolaeth o gynnydd wrth sicrhau adnoddau staff a chyllidebau ar gyfer y gwaith hwn.<br><br>Mawrth 2024: Nodi grŵp o swyddogion i wneud y canlynol:<br>• Adolygu'r trefniadau cynnal a chadw, a throsglwyddo tir fel rhan o'r systemau draenio trefol cynaliadwy a'r opsiynau ar gyfer trefniadau ar gyfer rheoli seilwaith gwyrdd arall yn yr hirdymor ar safleoedd datblygu<br>• Trafod cyfleoedd i gynllunio systemau draenio trefol cynaliadwy sy'n seiliedig ar natur i gyflawni seilwaith gwyrdd a hyrwyddo mabwysiadu'r dull hwn gan ddatblygwyr<br><br>Archwilio hyfywedd cyfraniadau adran 106 i hwyluso plannu coed a choetiroedd a rheolaeth hirdymor, ar safleoedd ac oddi arnynt (y gellir ei ddefnyddio i fodloni manteision seilwaith gwyrdd a glas a manteision net ar gyfer gofynion bioamrywiaeth). | Rheolwr Cadwraeth Wledig |
| **TWS/2C8** | Rhaglennu, datblygu, cyhoeddi a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol sy'n nodi dull integredig ar gyfer tirlunio, systemau draenio trefol cynaliadwy a darparu seilwaith gwyrdd a glas, rheoli | Mae'r canllawiau cynllunio atodol, a fydd yn llywio'r broses o blannu coed a choetiroedd fel rhan o ddatblygiadau newydd wedi'u rhaglennu ar gyfer haf 2025. Monitro ac adolygu os cânt eu mabwysiadu. | Rheolwr Polisi Strategol a Chreu Lleoedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | problemau coed, a darparu ar gyfer adferiad natur (gwelliant ecolegol) ar safleoedd datblygu. Rhaid i'r canllawiau hyn dynnu sylw at y buddion lluosog y gall plannu coed a choetiroedd eu darparu. Hyrwyddo plannu coed yn unol ag egwyddorion creu lleoedd a dylunio o safon. | | |
| **TWS/2C9** | Sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar waith i weithredu monitro cydymffurfedd er mwyn sicrhau bod yr holl blannu coed a thirlunio sy'n gysylltiedig â datblygu ledled Sir Gaerfyrddin yn cael ei gyflawni a'i gynnal. | Adrodd ar dystiolaeth o gynnydd wrth sicrhau adnoddau staff a chyllidebau ar gyfer y gwaith hwn | Rheolwr Cadwraeth Wledig |
| **TWS/2C10** | Paratoi prif gynlluniau ar gyfer safleoedd mwy a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn nodi sut y bydd seilwaith gwyrdd a glas, systemau draenio trefol cynaliadwy, tirlunio a gwelliant ecolegol yn cael eu cyflawni fel rhan annatod o ddatblygu newydd. | Adrodd yn flynyddol ar gynnydd wrth ddatblygu prif gynlluniau ar gyfer safleoedd mwy a neilltuwyd ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd | Rheolwr Polisi Strategol a Chreu Lleoedd |
| **TWS/2C12** | Datblygu a chyflwyno cynllun cyfathrebu ar gyfer Strategaeth Coed a Choetir CSC 2024–2029 ac yna ei adolygu | Adrodd yn flynyddol ar gyflawni'r cynllun cyfathrebu ar gyfer y Strategaeth Coed a Choetir | Cyfryngau a Marchnata CSC |

**Commented [BB1]:** A oes modd gwiro'r dyddiad yma / please check this date.

# 29. Atodiadau

## Atodiad A: Strategaeth clefyd coed ynn CSC (Hydref 2022)

Er mwyn rheoli effeithiau clefyd coed ynn, mae'r cyngor yn mabwysiadu'r dull canlynol:

Disgwylir i glefyd coed ynn effeithio ar o leiaf hyd at 80% i 90% o goed ynn yn y sir. Mae hyn yn effeithio ar gyfrifoldebau cyfreithiol, rhwymedigaethau a dyletswydd gofal y cyngor. I fynd i’r afael â hyn, bydd y cyngor yn mabwysiadu’r strategaeth ganlynol:

1. **Datblygu strategaeth gydlynol, seiliedig ar risg, a fydd yn mynd i'r afael â'r rheolaeth angenrheidiol o glefyd coed ynn ar draws y sir mewn modd cyson.**
2. **Rheoli'r risg gorfforaethol y mae'r clefyd yn ei rhoi ar y cyngor.**
3. **Codi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion y cyngor, aelodau etholedig a thirfeddianwyr preifat o'r ddyletswydd gofal a materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â rheoli clefyd coed ynn.**
4. **Rheoli'r coed yr effeithir arnynt y mae'r cyngor yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt yn unol â Chod Ymarfer y Diwydiant ar gyfer Coedyddiaeth. Sicrhau bod coed heintiedig ar dir gerllaw ardaloedd y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n briodol gan dirfeddianwyr.**
5. **Sicrhau bod rheolaeth y cyngor o glefyd coed ynn yn cydymffurfio â deddfwriaeth bywyd gwyllt y DU a'r UE ac yn cyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).**
6. **Hyrwyddo a chyflawni plannu coed a choetiroedd newydd i wneud iawn am y golled ddisgwyliedig o goed ynn.**
7. **Datblygu partneriaethau effeithiol i gyflawni'r uchod.**
8. **Sicrhau bod yr holl waith a wneir mewn ymateb i glefyd coed ynn yn cael ei gaffael yn unol â gweithdrefnau'r cyngor.**

## Cefndir

### *Beth yw clefyd coed ynn?*

Mae clefyd coed ynn yn glefyd ffwngaidd sy'n effeithio ar goed ynn ledled y DU ac Ewrop. Credir iddo gyrraedd y DU tua 20 mlynedd yn ôl o sborau ffwngaidd a gludwyd gan y gwynt o'r cyfandir a thrwy stoc plannu coed wedi’i heintio a fewnforiwyd o dir mawr Ewrop. Credir fod y ffwng (a elwir yn *Chalara* neu *Hymenoscyphus fraxineus*) wedi tarddu yn Asia, lle y mae’n cyd-fodoli â rhywogaethau ynn brodorol. Fodd bynnag, mae wedi achosi difrod eang ar draws tir mawr Ewrop, lle mae hyd at 90% o goed ynn wedi cael eu lladd gan y clefyd.




**Ffigur 1. Rydym yn gweithio gyda chontractwyr lleol profiadol i reoli clefyd coed ynn lle mae hyn yn effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Ar ffordd gyswllt Hendy, rhwng yr M4 a Llanelli, sef y ffordd brysuraf yn Sir Gaerfyrddin, rydym yn gwneud hyn yn y nos i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr ffyrdd yn ystod y dydd.**

*Pa mor gyffredin yw'r clefyd yn Sir Gaerfyrddin, ac mewn mannau eraill yng Nghymru?*

Mae clefyd coed ynn yn gyffredin ar draws Cymru'n gyffredinol. Ymddengys fod canran y coed ynn yr effeithir arni gan y clefyd yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu bob blwyddyn, ac mae'n debygol y bydd y clefyd yn effeithio ar y rhan fwyaf o goed ynn yn y sir yn yr ychydig flynyddoedd nesaf ac y bydd llawer ohonynt yn marw neu'n dirywio'n ddifrifol. Gall rhai coed ddangos rhywfaint o ymwrthedd i'r clefyd, ond mae'n rhy gynnar i allu mesur hyn. Disgwylir yr effeithir ar rhwng 80% a 90% o'n coed ynn. Mae'n debyg mai'r onnen yw'r ail goeden fwyaf cyffredin yn y sir, a bydd colli'r coed hyn yn cael effaith sylweddol ar y dirwedd.

## Beth yw strategaeth y cyngor ar gyfer rheoli clefyd coed ynn?

Yn unol ag awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru a Lloegr, y drefn yr ydym yn ei dilyn ar gyfer rheoli clefyd coed ynn yw'r un a argymhellir gan y Cyngor Coed yn ei gynllun gweithredu ar glefyd coed ynn. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio dim ond ar y coed hynny sydd, pan fyddant yn farw neu'n marw, yn peri risg annerbyniol i'r cyhoedd neu i eiddo. Mae'r cyngor hefyd yn gweithio'n gyson yn unol â chyngor y Gymdeithas Coedyddiaeth ac mae'n aelod corfforaethol o'r gymdeithas.

Mae swyddogion y cyngor o bob rhan o'r sefydliad yn gweithredu'r polisi a'r arferion gwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni'r strategaeth arfaethedig, gan gynnwys:

- Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Tai
- Eiddo
- Addysg
- Cynnal a Chadw Tiroedd
- Hamdden
- Lle a Chynaliadwyedd
- Adfywio
- Cyfathrebu
- Iechyd a Diogelwch

- Caffael

| Cyfrifoldeb | Cam gweithredu |
|---|---|
| **Ymateb cydlynol sy'n seiliedig ar risg:**<br><br>Datblygu ymateb cydlynol sy'n seiliedig ar risg i reoli clefyd coed ynn y gellir ei gyflwyno'n gyson ar draws y cyngor, gan adlewyrchu ei gyfrifoldebau<br><br>**SWYDDOG ARWEINIOL** – Swyddog Cadwraeth Wledig a'r Swyddog Diogelwch Coed | • Mae swyddogion sy'n ymwneud â'r mater hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd ers mis Mehefin 2019 i fwrw ymlaen â chyflawniad y strategaeth hon. Maent yn cyfarfod i osod blaenoriaethau a chytuno ar gamau gweithredu. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â thimau rheoli adrannol a chorfforaethol. Fe'i hwylusir gan yr Adran Cadwraeth Wledig yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae cyllid ar gael ar gyfer swydd swyddog prosiect clefyd coed ynn am ddwy flynedd i ddechrau. |
| **Rheoli coed ar dir y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano:**<br><br>Rheoli'n briodol y coed ynn ar dir y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano'n uniongyrchol – e.e. ysgolion, parciau, meysydd parcio, mannau agored cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt, ardaloedd tai, rhywfaint o dir gerllaw'r briffordd ar hyd ffyrdd a adeiladwyd | • Er mwyn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau dyletswydd gofal, mae'r cyngor yn arolygu ei holl eiddo'n rheolaidd am ddiogelwch coed gan ddefnyddio system TreeAssured, ac mae hyn yn cynnwys arolygon o goed ynn. Yn 2019, hyfforddwyd 37 o swyddogion i adnabod a deall y risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd coed ynn.<br>• Bydd yr holl waith rheoli coed ynn heintiedig gan y cyngor yn cael ei wneud yn unol â Strategaeth Rheoli Coed y cyngor a'r Cynllun Gweithredol Diogelwch Coed a nodir yn y strategaeth hon. Gweler hefyd Atodiad B yn y strategaeth: Gweithdrefn TreeAssured – TreeWorks (West Wales) Ltd 2014 – gweler y ddolen isod.<br>• Bydd coed yr effeithir arnynt ar eiddo a reolir gan y cyngor a choed yr effeithir arnynt o fewn terfynau priffyrdd yn cael eu rheoli yn unol â'r strategaeth uchod ac yn unol â Chod Ymarfer y Diwydiant ar gyfer Coedyddiaeth a BS 3998, y safon BS ar gyfer gwaith coed.<br>• Bydd angen adolygu arferion gwaith yn gyfnodol i sicrhau bod gweithdrefnau'r cyngor a'r arferion gorau yn cael eu dilyn a bod mesurau effeithlonrwydd yn cael eu mabwysiadu lle bo modd. |

| | |
|---|---|
| yn fwy diweddar, coed ar ffermydd sy'n eiddo i'r cyngor<br><br>**SWYDDOGION ARWEINIOL** – Swyddog Diogelwch Coed a Phennaeth Gwasanaethau Eiddo a Phriffyrdd | |
| **Coed ar dir gerllaw tir y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano:**<br><br>Sicrhau rheolaeth briodol o goed heintiedig ar dir gerllaw ardaloedd y mae'n gyfrifol amdanynt, y priffyrdd cyhoeddus – ffyrdd, llwybrau beicio, Llwybrau Diogel i'r Ysgol, a hawliau tramwy cyhoeddus<br><br>**SWYDDOGION ARWEINIOL** – Swyddfa Diogelwch Coed a Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd | • Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn archwilio'r rhwydwaith ffyrdd ac yn asesu'r risgiau a achosir gan goed yr effeithir arnynt gan glefyd coed ynn. Mae'n nodi coed yr effeithir arnynt o fewn terfynau priffyrdd a choed yr effeithir arnynt o fewn pellter cwympo o'r ffordd sydd ar dir preifat. Sir Gaerfyrddin sydd â'r ail rwydwaith priffyrdd mwyaf yng Nghymru, gyda thua 3,500 km o briffyrdd i'w cynnal a'u cadw. Gyda rhwydwaith mor fawr, bydd yr awdurdod yn archwilio'r ffyrdd drwy ddull sy'n seiliedig ar risg sy'n ystyried pwysigrwydd strategol y llwybr a maint y traffig. Bydd yn datblygu a defnyddio dulliau effeithlon o hysbysu tirfeddianwyr preifat am eu cyfrifoldebau dyletswydd gofal ynghylch coed yr effeithir arnynt gan glefyd coed ynn.<br>• Mae arolygon yn benodol at ddiben nodi coed ynn heintiedig yn cael eu cynnal ar ffyrdd Dosbarth A a B a byddant yn cael eu hailadrodd wrth i'r clefyd ddatblygu.<br>• Mae'r cyngor hefyd yn arolygu ei Lwybrau Diogel i'r Ysgol.<br>• Cynhaliwyd yr un arolygon ar hyd cefnffyrdd y sir gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Codi ymwybyddiaeth**<br><br>Codi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion y cyngor, aelodau etholedig a rheolwyr tir o'u cyfrifoldebau, o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984, ar gyfer diogelwch y cyhoedd, e.e. rheoli coed ynn ger ffyrdd<br><br>Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r clefyd ymhlith y cyhoedd<br><br>**SWYDDOG ARWEINIOL** ar gyfer y cynllun cyfathrebu<br><br>Swyddog y Wasg a Chyfathrebu a'r Swyddog Diogelwch Coed | • Mae tîm cyfathrebu'r cyngor, ynghyd â'r prosiect clefyd coed ynn, yn cyflwyno cynllun cyfathrebu ar gyfer y clefyd a fydd yn cynnwys tudalen we, set o gwestiynau cyffredin a thaflen i dirfeddianwyr.<br>• Mae grŵp clefyd coed ynn yn trefnu hyfforddiant i swyddogion ac aelodau etholedig ar glefyd coed ynn a chyfrifoldebau'r cyngor.<br>• Mae swyddogion yn datblygu dulliau effeithiol o weithio gyda thirfeddianwyr mewn perthynas â choed ar ochr y ffordd sydd mewn perchnogaeth breifat, yn ogystal â defnyddio'r dull mwy ffurfiol a nodir yn y Ddeddf Priffyrdd. |
| **Iechyd a diogelwch:**<br><br>Rheoli'r coed yr effeithir arnynt y mae'r cyngor yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt yn unol â Chod Ymarfer y Diwydiant ar gyfer | • Dim ond contractwyr coedyddiaeth sy'n gallu dangos eu bod yn gweithio yn unol â Chod Ymarfer y Diwydiant ar gyfer Coedyddiaeth a BS 3998:2010 y bydd y cyngor yn eu caffael i wneud gwaith ar goed yr effeithir arnynt gan glefyd coed ynn.<br>• Bydd holl weithredwyr y cyngor yn gweithio ac yn cael eu rheoli yn unol â Chod Ymarfer y Diwydiant ar gyfer Coedyddiaeth a BS 39998:2010. Bydd holl weithredwyr y cyngor a |

| | |
|---|---|
| Coedyddiaeth. Sicrhau bod coed heintiedig ar dir gerllaw ardaloedd y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n briodol<br><br>**SWYDDOG ARWEINIOL:** Partner Busnes Arweiniol<br><br>Iechyd a Diogelwch | fydd yn gweithio ar goed yr effeithir arnynt gan glefyd coed ynn yn cael eu hyfforddi i'r safonau angenrheidiol a byddant yn dal tystysgrifau NPTC sy'n briodol ar gyfer y gwaith hwn. Byddant hefyd yn derbyn hyfforddiant penodol i reoli coed yr effeithir arnynt gan glefyd coed ynn.<br>• Parhau i adolygu pob asesiad risg sy'n ymwneud â chlefyd coed ynn a gwaith cysylltiedig.<br>• Sicrhau bod pob system rheoli traffig (a cherddwyr) yn adlewyrchu'r cylchoedd gwaith diogel angenrheidiol ar gyfer y gwaith coedyddiaeth sy'n cael ei wneud. |
| **Clefyd coed ynn a bywyd gwyllt**<br><br>**SWYDDOG ARWEINIOL** – Rheolwr Cadwraeth Wledig | • Prif bryder y cyngor ynghylch rheoli coed yr effeithir arnynt gan glefyd coed ynn fydd y risgiau i'r cyhoedd ac eiddo. Yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd, bydd yn mabwysiadu dulliau gwaith sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth bywyd gwyllt yr UE a'r DU, ac a fydd yn lleihau unrhyw effaith andwyol ar gynefinoedd a'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal. Bydd yn darparu mesurau lliniaru yn ôl yr angen. |
| **Plannu coed newydd:**<br><br>Codi ymwybyddiaeth o'r angen i blannu coed newydd priodol i wneud iawn am golli coed ynn o dirweddau a chynefinoedd Sir Gaerfyrddin, yn gyson â dyletswydd y cyngor o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).<br><br>**SWYDDOGION ARWEINIOL** | • Bydd y dudalen we yn cynnwys cyngor ynghylch ailblannu a bydd swyddog Coed Cymru a swyddog clefyd coed ynn y cyngor yn gallu cynghori tirfeddianwyr.<br>• Bydd yr Adran Cadwraeth Wledig yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau cymorth grant ar gyfer prosiectau plannu newydd a fydd yn gwneud iawn am golli coed ynn yn Sir Gaerfyrddin, a bydd yn annog eraill i wneud yr un peth.<br>• Bydd y cyngor yn nodi cyfleoedd yn ei brosiectau i gyflawni cynlluniau plannu coed a fydd yn helpu i wneud iawn am golli coed ynn yn y sir yn ogystal â darparu buddion lluosog eraill. |

| | |
|---|---|
| Rheolwr Cadwraeth Wledig, Swyddog Diogelwch Coed a Swyddog Coed Cymru | |
| **Gweithio gyda phartneriaid:**<br><br>Gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid ledled Sir Gaerfyrddin ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i gyflawni'r uchod<br><br>**SWYDDOG ARWEINIOL:** Rheolwr Cadwraeth Wledig a Swyddog Diogelwch Coed | • Mae'r cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad a Chyfoeth Naturiol Cymru ar glefyd coed ynn, a bydd yn croesawu cyfleoedd i weithio gyda phartïon eraill sydd â diddordeb, yn ôl yr angen. |
| **Rheoli risgiau corfforaethol**<br><br>**SWYDDOG ARWEINIOL**: Pennaeth Eiddo | Derbynnir bod effeithiau posibl coed marw a choed sy'n marw oherwydd clefyd coed ynn yn peri risgiau corfforaethol sylweddol. Wrth ddatblygu ei strategaeth clefyd coed ynn, mae'r cyngor yn nodi sut y bydd yn rheoli'r risgiau hyn. |

| | |
|---|---|
| | **<u>Iechyd a diogelwch:</u>** Mae dull y cyngor o reoli iechyd a diogelwch fel y nodir uchod yn mynd i'r afael â'r risgiau posibl o farwolaeth neu anaf angheuol yn deillio o ddamweiniau sy'n gysylltiedig â chlefyd coed ynn, i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar goed ac i'r cyhoedd, e.e. defnyddwyr ffyrdd.<br><br>Bydd materion iechyd a diogelwch ar yr ystad a reolir gan y cyngor, e.e. parciau gwledig, ysgolion a seilwaith cysylltiedig, e.e. Llwybrau Diogel i'r Ysgol, yn cael eu rheoli fel y nodir uchod, gan gyfeirio at reoli tir y mae'r cyngor yn uniongyrchol gyfrifol amdano a rheoli tir gerllaw'r ardaloedd hyn.<br><br>**<u>Risg i'r amgylchedd:</u>** O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan y cyngor ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae clefyd coed ynn yn peri bygythiad i fioamrywiaeth y sir. Bydd hyrwyddo rheoli coetir a phlannu coed fel rhan o ddull y cyngor o reoli clefyd coed ynn yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae cyflawni cynlluniau'r cyngor ei hun ar gyfer plannu coetir newydd, sydd â'r potensial i fynd i'r afael â cholli cynefin ac amwynder cyhoeddus sy'n deillio'n uniongyrchol o glefyd coed ynn, o bwys arbennig.<br><br>**<u>Risg i enw da'r cyngor:</u>** Bydd y ffordd y mae'r cyngor yn rheoli clefyd coed ynn yn effeithio ar ei enw da. Er enghraifft, wrth reoli clefyd coed ynn, bydd swyddogion yn ymwybodol o'r canlynol:<br><br>• effaith cau ffyrdd a chau mannau agored cyhoeddus ar enw da'r cyngor<br>• yr angen i reoli pryder y cyhoedd ynghylch clefyd coed ynn<br>• yr angen i reoli ei berthnasoedd â thirfeddianwyr<br><br>Mae cyflawni cynllun cyfathrebu clefyd coed ynn y cyngor yn mynd i'r afael â'r materion hyn. |

| | |
|---|---|
| | **Risg ariannol a risg i'r economi:** Bydd gan glefyd coed ynn effaith economaidd ar economi Sir Gaerfyrddin, yn bennaf dyma fydd cost uniongyrchol cael gwared ar goed sy'n peri bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd, a bydd y gost hon yn disgyn yn bennaf ar dirfeddianwyr preifat – mae'r rhan fwyaf o goed ynn yn y sir mewn perchnogaeth breifat. Bydd cost uniongyrchol hefyd yn gysylltiedig ag atgyweirio unrhyw ddifrod i eiddo neu seilwaith sy'n deillio o goed yn cwympo.<br><br>Gyda'i gilydd, mae'r costau hyn yn rhoi baich ariannol sylweddol ar gyrff cyhoeddus fel y cyngor, nid yn unig o ran rheoli coed y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol ond wrth sicrhau bod y coed ar dir gerllaw ei gyfrifoldebau yn cael eu rheoli'n briodol. Yn yr un modd, mae clefyd coed ynn yn peri bygythiad i fathau eraill o seilwaith, e.e. rhwydwaith rheilffyrdd a llinellau uwchben a reolir gan asiantaethau eraill.<br><br>Mae yna hefyd gost plannu newydd i wneud iawn am y golled o goed a choetiroedd yn sgil clefyd coed ynn.<br><br>Mae risgiau clefyd coed ynn wedi cael eu hamlygu drwy'r Gweithgor Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd a'r Grŵp Llywio Rheoli Risg. Cyflwynwyd cais ariannol am gymorth i gwmpasu ac ymgymryd â gwaith clefyd coed ynn i'r Gronfa Rheoli Risg yn wreiddiol, ond yn lle hynny mae wedi'i ariannu i ddechrau o gyllidebau corfforaethol.<br><br>Mae dull sy'n seiliedig ar risg wedi'i fabwysiadu i nodi a chael gwared ar goed sydd â symptomau datblygedig iawn o glefyd coed ynn ar hyd llwybrau priffyrdd â blaenoriaeth ac ar diroedd ysgolion yn seiliedig ar amlder y defnydd a'r risg i bobl o goed yr effeithir arnynt, neu rannau o goed, yn |

| | |
|---|---|
| | cwympo. Bydd cael gwared ar yr ynn yr effeithir arnynt o ardaloedd a ddefnyddir yn llai aml yn dilyn, yn amodol ar fod y cyllid angenrheidiol ar gael.<br><br>Mae risg yn parhau y bydd angen digon o gyllid i wneud gwaith hanfodol ar goed yr effeithir arnynt er mwyn atal difrod, a bydd gofynion cyllido pellach yn cael eu hadolygu a bydd cynigion cyllido pellach yn cael eu gwneud, yn ôl yr angen.<br><br>Bydd clefyd coed ynn yn parhau i fod yn eitem sefydlog gyda'r Grwpiau Rheoli Risg i sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro'n effeithiol, yn ogystal ag mewn cynlluniau busnes adrannol priodol ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd â choed ynn yn eu portffolios.<br><br>**Er mwyn rheoli'r risgiau hyn a phob risg arall sy'n gysylltiedig â diogelwch coed, rhaid i'r cyngor gadw'r capasiti ac arbenigedd angenrheidiol o fewn ei strwythur staffio.** |


# Atodiad B: Strategaeth Rheoli Coed (Medi 2019)

(yn cael ei hailddrafftio ar hyn o bryd)

## Atodiad C: Ardaloedd rheoli ansawdd aer

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Carmarthen AQMA Boundary Map



0 100 200 300m

Graddfa Scale 1:10000

Canol y Map Map Centre [241252.7,220376.9]


Dyddiad Date 22/02/2016

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016. Arolwg Ordnans 100023377

© Crown Copyright and database rights 2016. Ordnance Survey 100023377

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Llanelli AQMA Boundary Map




0 200 400 600m


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Graddfa<br>Scale | 1:15000 | | Canol y Map<br>Map Centre | [249868,201019.8] | | Dyddiad<br>Date | 26/02/2016 |

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016. Arolwg Ordnans 100023377

© Crown Copyright and database rights 2016. Ordnance Survey 100023377

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Llandeilo AQMA Boundary




0 200 400 600m

Graddfa
Scale
1:15000

Canol y Map
Map Centre
[263083.6,222285.6]

Dyddiad
Date
30/05/2023

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2023. Ordnance Survey 100023377